



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1
Legislation Committee No. 1**

**Dydd Iau, 15 Hydref 2009
Thursday, 15 October 2009**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 4 Y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r
Trefniadau) (Cymru)—Cyfnod 1, Sesiwn Dystiolaeth 5: Yr Aelod sy'n Gyfrifol am y
Mesur Arfaethedig
The Proposed Shipment of Waste for Recovery (Community Involvement in
Arrangements) (Wales) Measure—Stage 1, Evidence Session 5: Member in Charge
of the Proposed Measure
- 37 Cynnig Trefniadol
Procedural Motion

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y
pwyllgor. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, these proceedings are reported in the language in which they were
spoken in the committee. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Mohammad Asghar	Plaid Cymru The Party of Wales
Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Rosemary Butler	Llafur (Cadeirydd y Pwyllgor) Labour (Committee Chair)
Irene James	Llafur (yn dirprwyo ar ran Ann Jones) Labour (substitute for Ann Jones)
Val Lloyd	Llafur (yn dirprwyo ar ran Huw Lewis) Labour (substitute for Huw Lewis)
Nick Ramsay	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Nerys Evans	Aelod Cynulliad, Plaid Cymru Assembly Member, The Party of Wales
-------------	---

Swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn bresennol
Assembly Parliamentary Service officials in attendance

Claire Griffiths	Dirprwy Glerc Deputy Clerk
Joanest Jackson	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Vic Paris	Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau Members' Research Service
Bethan Roberts	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Liz Wilkinson	Clerc Clerk
Graham Winter	Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau Members' Research Service

Dechreuodd y cyfarfod am 9.29 a.m.
The meeting began at 9.29 a.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **Rosemary Butler:** Good morning, everyone, and welcome to this meeting of Legislation Committee No 1. I have received apologies from Ann Jones and Huw Lewis, for whom Irene James and Val Lloyd are substituting. Welcome, Val; Irene James will be here a little later.

Rosemary Butler: Bore da bawb, a chroeso i'r cyfarfod hwn o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1. Yr wyf wedi derbyn ymddiheuriadau oddi wrth Ann Jones a Huw Lewis, a bydd Irene James a Val Lloyd yn dirprwyo ar eu rhan. Croeso Val; bydd Irene James yma yn y man.

[2] I remind the committee that we operate bilingually, and that you can use the

Atgoffaf y pwyllgor ein bod yn gweithredu'n ddwyieithog, ac y gallwch ddefnyddio'r

headsets to listen to a translation of Welsh contributions, or as an induction loop to hear the whole proceedings more clearly. Channel 0 on the headsets will provide the verbatim broadcast and channel 1 provides translation. I remind Members to turn off all mobile phones, pagers or any electronic devices, as they interfere with the broadcasting and translation systems. I remind you not to touch the microphones, as they come on automatically.

clustffonau i wrando ar gyfieithiad o gyfraniadau yn y Gymraeg, neu fel dolen sain i glywed yr holl drafodion yn gliriach. Bydd Sianel 0 ar y clustffonau'n rhoi'r darllediad llawn a bydd sianel 1 yn darparu'r cyfieithiad. Atgoffaf yr Aelodau i ddiffodd eu ffonau symudol, galwyr neu unrhyw declynnau electronig, gan eu bod yn ymyrryd â'r systemau cyfieithu a darlledu. Cofiwch beidio â chyffwrdd y microffonau, gan y dônt ymlaen yn awtomatig.

9.30 a.m.

Y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru)—Cyfnod 1, Sesiwn Dystiolaeth 5: Yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Mesur Arfaethedig

The Proposed Shipment of Waste for Recovery (Community Involvement in Arrangements) (Wales) Measure—Stage 1, Evidence Session 5: Member in Charge of the Proposed Measure

[3] **Rosemary Butler:** This morning, we will take further evidence from Nerys Evans AM in connection with the Proposed Shipment of Waste for Recovery (Community Involvement in Arrangements) (Wales) Measure. Welcome, Nerys. I see that you have Joanest Jackson and Graham Winter with you this morning.

Rosemary Butler: Y bore yma, byddwn yn cael rhagor o dystiolaeth gan Nerys Evans AC yng nghyswllt y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau)(Cymru). Croeso, Nerys. Gwelaf fod Joanest Jackson a Graham Winter gyda chi y bore yma.

[4] We have a series of questions to ask you, Nerys. When we have finished, if there is anything else that you would like to say to us, we would be more than pleased to hear it. I will ask the first question. It is apparent from evidence received by the committee that there is some confusion about the aim of the proposed Measure. Some evidence suggests that the proposed Measure is based on the premise that exporting recyclate is wrong, and that it seeks to restrict the export of recyclate and to ensure that all waste generated in Wales is treated locally. How do you respond to this? Can you clarify, for the record, the aim of the proposed Measure?

Mae gennym nifer o gwestiynau i'w gofyn ichi, Nerys. Pan fyddwn wedi gorffen, os bydd gennych unrhyw beth arall i'w ddweud wrthym, byddem yn fwy na pharod i wrando arnoch. Fe ofynnaf i'r cwestiwn cyntaf. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth y mae'r pwyllgor wedi'i derbyn bod rhywfaint o ddryswch ynghylch nod y Mesur arfaethedig. Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod y Mesur arfaethedig yn seiliedig ar y cynsail bod allforio deunydd ailgylchu yn anghywir, a'i fod yn ceisio cyfyngu ar allforio deunydd ailgylchu a sicrhau bod yr holl wastraff a gynhyrchir yng Nghymru'n cael ei drin yn lleol. Sut yr ydych yn ymateb i hyn? A allwch esbonio, ar gyfer y cofnod, nod y Mesur arfaethedig?

[5] **Nerys Evans:** First of all, thank you for the opportunity to give evidence to the committee once again. As set out in the explanatory memorandum, the purpose of the proposed Measure is to increase transparency and openness in the way that Welsh local

Nerys Evans: Yn gyntaf, diolch ichi am y cyfle i roi tystiolaeth i'r pwyllgor unwaith eto. Fel y nodwyd yn y memorandwm esboniadol, pwrpas y Mesur arfaethedig yw bod yn fwy agored a thryloyw yng nghyswllt y ffordd y mae awdurdodau lleol Cymru'n

authorities deal with our waste in recycling it. It would put a requirement on local authorities to publish information about the proportion of recyclate collated from households that is processed outside the European Community and the European free trade area. The proposed Measure requires local authorities to take reasonable steps to collect this information and to publish a statement explaining the steps that they have taken. This element has changed since my first draft of the proposed Measure, which said that this information should be collected. I changed that after the pre-legislative consultation to say that they should take reasonable steps where the information exists. So, it was changed during the consultation.

[6] The proposed Measure does not put any more duties on local authorities than making this information publicly available, but only insofar as the information exists. Over time, it is expected that the quality of the information would improve, partly through better recording and better information being provided by waste reprocessors and partly through local authorities including requirements for this information to be included in contracts when re-awarding contracts.

[7] The intention of the proposed Measure is not to discourage the exporting of recycling or to discourage the recovery of materials overseas by legitimate processors, where that provides the best environmental option. I am sure that you have heard evidence, as I have, that suggests that it is sometimes more environmentally sound to export waste for recycling. So, the aim is not to discourage that, especially as the Assembly has no jurisdiction and no legislative competence to prevent waste from being exported. It is purely to make the process more transparent and to provide the public with more information about where our waste is being recycled.

[8] **Rosemary Butler:** May I clarify that? You are not asking local authorities to collect more information; is that what you said?

trin ein gwastraff wrth ei ailgylchu. Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth am y gyfran o ddeunydd ailgylchu a gesglir o gartrefi a brosesir y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac ardal fasnach rydd Ewrop. Mae'r Mesur arfaethedig yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol i gasglu'r wybodaeth hon a chyhoeddi datganiad yn esbonio'r camau a gymerwyd ganddynt. Mae'r elfen hon wedi newid ers fy nrafft cyntaf o'r Mesur arfaethedig, a ddywedai y dylid casglu'r wybodaeth hon. Newidiais hynny ar ôl yr ymgynghoriad cyn y broses ddeddfu i ddweud y dylent gymryd camau rhesymol os yw'r wybodaeth ar gael. Felly, fe'i newidiwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Nid yw'r Mesur arfaethedig yn gosod dim mwy o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol na rhoi'r wybodaeth hon yn y parth cyhoeddus, ond dim ond os yw'r wybodaeth ar gael. Dros amser, disgwylir i ansawdd yr wybodaeth wella, yn rhannol drwy gofnodi'n well a thrwy gael gwybodaeth well gan ailbroseswyr gwastraff ac yn rhannol drwy i awdurdodau lleol gynnwys gofynion i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn contractau wrth ailddyfarnu contractau.

Nid bwriad y Mesur arfaethedig yw peidio ag annog y broses o allforio deunydd ailgylchu nac ychwaith peidio ag annog y broses o adfer deunydd dramor gan broseswyr cyfreithlon, os hynny yw'r opsiwn amgylcheddol gorau. Yr wyf yn siŵr eich bod wedi clywed tystiolaeth, fel finnau, sy'n awgrymu ei bod weithiau yn amgylcheddol ddoethach allforio gwastraff i'w ailgylchu. Felly, nid peidio ag annog hynny yw'r nod, yn enwedig gan nad oes gan y Cynulliad awdurdodaeth na chymhwysedd deddfwriaethol i atal gwastraff rhag cael ei allforio. Yn hytrach, y nod yw gwneud y broses yn fwy tryloyw a rhoi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd ynghylch lle mae ein gwastraff yn cael ei ailgylchu.

Rosemary Butler: A allaf gadarnhau hynny? Nid ydych yn gofyn i awdurdodau lleol gasglu mwy o wybodaeth; ai hynny a ddywedasoch?

[9] **Nerys Evans:** It asks that they collect the information where it exists. There is a requirement on the companies that export waste to fill in forms—annex 7 forms—with this information. It is purely asking the companies to pass that information on to the local authorities in order for them to publish it to make people in their areas aware of what is happening to their waste.

[10] **Rosemary Butler:** So, you are not asking them to collect more information, but to disseminate the information that exists.

[11] **Nerys Evans:** Yes, to get the information that is there, first of all. At the moment, some local authorities—

[12] **Rosemary Butler:** I am sorry, there is an echo here this morning. Do we have two microphones on at the same time? Could you please say that again?

[13] **Nerys Evans:** At the moment, local authorities can collect that information voluntarily. Of course, that information exists, because any company exporting waste must have paperwork to show where it goes; it is just a matter of ensuring that, when local authorities have contracts with the companies that export waste, they get the information about what happens to their waste and make it available to the public.

[14] **Val Lloyd:** The committee has received evidence to suggest that the aim of the proposed Measure can be achieved by publishing general figures for all waste flows into and out of Wales on an annual basis and that that information should be available from the Environment Agency through WasteDataFlow. What are your views on that?

[15] **Nerys Evans:** WasteDataFlow provides information on where recyclate goes in the UK. Although any increased level of data given to the public would be welcome, that would not lead to the transparency that would be secured through this proposed

Nerys Evans: Mae'n gofyn iddynt gasglu'r wybodaeth os yw'r wybodaeth honno ar gael. Mae'n rhaid i gwmnïau sy'n allforio gwastraff lenwi ffurflenni—ffurflenni atodiad 7—gyda'r wybodaeth hon. Y cyfan a wneir yw gofyn i'r cwmnïau drosglwyddo'r wybodaeth honno i'r awdurdodau lleol er mwyn iddynt ei chyhoeddi fel y bydd pobl yn eu hardaloedd yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd i'w gwastraff.

Rosemary Butler: Felly, nid ydych yn gofyn iddynt gasglu mwy o wybodaeth, ond, yn hytrach, lledaenu'r wybodaeth sydd eisoes ar gael.

Nerys Evans: Ie, i gael yr wybodaeth sydd yno, yn gyntaf oll. Ar hyn o bryd, mae rhai awdurdodau lleol—

Rosemary Butler: Mae'n ddrwg gennyf, mae gennym atsain y bore yma. A oes gennym ddau ficroffon ymlaen yr un pryd? A allech chi ddweud hynny eto?

Nerys Evans: Ar hyn o bryd, gall awdurdodau lleol gasglu'r wybodaeth honno'n wirfoddol. Wrth gwrs, mae'r wybodaeth honno'n bodoli, oherwydd mae'n rhaid i unrhyw gwmni sy'n allforio gwastraff gael y gwaith papur i ddangos i ble mae'n mynd; y cyfan sydd angen ei wneud yw sicrhau, pan mae gan awdurdodau lleol gcontractau gyda'r cwmnïau sy'n allforio gwastraff, eu bod yn cael yr wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i'w gwastraff a sicrhau y gall y cyhoedd gael gafael ar yr wybodaeth honno.

Val Lloyd: Mae'r pwyllgor wedi cael tystiolaeth i awgrymu y gellir cyflawni nod y Mesur arfaethedig drwy gyhoeddi ffigurau cyffredinol ar gyfer yr holl ffrydiau gwastraff i mewn ac allan o Gymru a hynny'n flynyddol, ac y dylai'r wybodaeth honno fod ar gael gan Asiantaeth yr Amgylchedd drwy WasteDataFlow. Beth yw eich barn am hynny?

Nerys Evans: Mae WasteDataFlow yn darparu gwybodaeth am ble mae'r deunydd ailgylchu'n mynd yn y DU. Er y croesewid unrhyw gynnydd yn lefel y data a roddir i'r cyhoedd, ni fyddai hynny'n arwain at y tryloywder y byddid yn ei gael drwy'r Mesur

Measure, particularly in ensuring that information is available to confirm that the waste that is sent outside the European Community and the European free trade area is dealt with at appropriate facilities that broadly meet European standards.

[16] Under the UK Transfrontier Shipment of Waste Regulations 2007, companies exporting green-list waste, which is the type of waste that this proposed Measure addresses, must already complete and sign annex 7 forms that include details about the people involved in the production of waste, the proposed recovery operation for the treatment of waste and the name and location of the recovery facility where the waste is sent. So, companies are already required to keep this information. Therefore, most of the information that my proposed Measure seeks, as I said in response to the first question, is already available, but local authorities would be required to try to collect that information.

[17] In Scotland and Northern Ireland, companies that export green-list waste are already required to send a copy of the completed form to the competent authority, but the consultant's report, completed by Enviro Consulting on behalf of the Assembly Government—you received a copy from the Minister last week—states that it would be possible for local authorities to access the completed annex 7 forms to provide most of the information that is required in the proposed Measure. So, the information is there and it is just a matter of passing it down to the local authorities.

[18] **Val Lloyd:** Again, in evidence to the committee, the Welsh Environmental Services Association suggested that rather than using the proposed Measure, transparency could be improved if material recycling facilities adopted a quality assurance approach to ensure that the facility itself operates in full accordance with good industry practice and that materials exported meet the requirements of the applicable laws on transboundary shipments. How do you respond to that?

[19] **Nerys Evans:** Any improvement in

arfaethedig hwn, yn arbennig o ran sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gadarnhau bod y gwastraff a anfonir y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac ardal masnach rydd Ewrop yn cael ei drin mewn cyfleusterau priodol sydd, at ei gilydd, yn bodloni'r safonau Ewropeaidd.

O dan Reoliadau Cludo Gwastraff ar Draws Ffiniau y DU 2007, mae'n rhaid i gwmnïau sy'n allforio gwastraff rhestr werdd, sef y math o wastraff y mae'r Mesur arfaethedig hwn yn ymdrin ag ef, lenwi a llofnodi ffurflenni atodiad 7 eisoes. Mae'r ffurflenni hynny'n cynnwys manylion y bobl sy'n gysylltiedig â chynhyrchu gwastraff, y dull adfer arfaethedig ar gyfer trin gwastraff ac enw a lleoliad y cyfleuster adfer lle anfonir y gwastraff. Felly, mae'n rhaid i gwmnïau gadw'r wybodaeth hon yn barod. Felly, mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth y mae fy Mesur arfaethedig yn ei cheisio, fel y dywedais wrth ateb y cwestiwn cyntaf, eisoes ar gael, ond byddai'n rhaid i awdurdodau lleol geisio casglu'r wybodaeth honno.

Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid i gwmnïau sy'n allforio gwastraff rhestr werdd anfon copi o'r ffurflen wedi'i llenwi at yr awdurdod cymwys, ond mae adroddiad yr ymgynghorydd, a gwblhawyd gan Enviro Consulting ar ran Llywodraeth y Cynulliad—derbyniasoch gopi gan y Gweinidog yr wythnos diwethaf—yn datgan y byddai modd i awdurdodau lleol gael gafael ar y ffurflenni atodiad 7 er mwyn cael y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n ofynnol yn y Mesur arfaethedig. Felly, mae'r wybodaeth yno, a'r cyfan y byddai'n rhaid ei wneud yw ei throsglwyddo i'r awdurdodau lleol.

Val Lloyd: Eto, mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, awgrymodd Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru yn hytrach na defnyddio'r Mesur arfaethedig, y gellid gwella tryloywder petai cyfleusterau ailgylchu deunyddiau'n mabwysiadu dull sicrhau ansawdd i sicrhau bod y cyfleuster ei hun yn gweithredu'n gyfan gwbl yn unol ag arferion da'r diwydiant a bod y deunyddiau a allforir yn bodloni gofynion y cyfreithiau perthnasol ar gludo ar draws ffiniau. Sut yr ydych yn ymateb i hynny?

Nerys Evans: Byddai unrhyw welliant yn

the quality and the standards of MRF companies to ensure that they comply with industry practice would be welcome, but that alone would not provide the necessary information, as recommended in my proposed Measure. Furthermore, it would not provide the necessary information to local residents or to local authorities, thereby enabling them to ensure that any waste sent out of the European Community or of EFTA countries was dealt with using the same standards. So, that would be welcome, but that approach does not cover the same areas as those outlined in my proposed Measure.

[20] **Val Lloyd:** So, is it adding to your proposed Measure or is it going some way towards meeting it?

[21] **Nerys Evans:** I think that it is different because my proposed Measure aims to increase the transparency of existing practices. If you wanted to improve the quality of current practices, then you would require a different Measure. My proposed Measure does not impose any further duties to ensure quality standards or monitoring; it simply ensures that information is passed on so that people know what is happening. Those are two separate issues.

[22] **Val Lloyd:** In evidence to the committee, the Minister for Environment, Sustainability and Housing accepted that improvement in the transparency of how local authorities deal with recyclate is needed. However, she asserted that, before considering a legislative approach, work should be undertaken to encourage local authorities to voluntarily provide and subsequently publish information on final destinations of recyclate. Do you think that it is sensible to seek to improve existing arrangements in this way before resorting to a legislative approach?

[23] **Nerys Evans:** This takes us to the crux of the matter: do we want a voluntary approach or do we want it to be statutory? Of course, local authorities can voluntarily use the WasteDataFlow system at the moment to gather this information. I surveyed local authorities during the preparation phase of

ansawdd a safonau cwmnïau Cyfleusterau Ailgylchu Deunyddiau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arferion y diwydiant yn cael ei groesawu, ond ni fyddai hynny'n unig yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol, fel yr argymhellir yn fy Mesur arfaethedig. Yn ogystal, ni fyddai'n darparu'r wybodaeth angenrheidiol i breswylwyr lleol nac i awdurdodau lleol, a fyddai'n eu galluogi i sicrhau y byddai unrhyw wastraff a anfonir o'r Gymuned Ewropeaidd neu wledydd ardal masnach rydd Ewrop yn cael ei drin gan ddefnyddio'r un safonau. Felly, byddai hynny i'w groesawu, ond nid yw'r dull gweithredu hwnnw'n cwmpasu'r un meysydd â'r rhai a amlinellir yn fy Mesur arfaethedig.

Val Lloyd: Felly, a yw'n ychwanegu at eich Mesur arfaethedig ynteu'n mynd ran o'r ffordd tuag at ei gyrraedd?

Nerys Evans: Tybiaf ei fod yn wahanol gan mai nod fy Mesur arfaethedig yw gwella tryloywder arferion cyfredol. Er mwyn gwella ansawdd yr arferion cyfredol, byddai'n rhaid cael Mesur gwahanol. Nid yw fy Mesur arfaethedig yn gosod rhagor o ddyletswyddau i sicrhau safonau ansawdd na monitro; y cyfan a wna yw sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo er mwyn i bobl wybod beth sy'n digwydd. Maent yn ddau fater gwahanol.

Val Lloyd: Wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, derbyniodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai fod angen gwella'r tryloywder ynghylch sut y mae awdurdodau lleol yn delio gyda deunydd ailgylchu. Ond, pwysleisiodd y dylid, cyn ystyried dull deddfwriaethol, ymdrechu i annog awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth am gyrchfannau terfynol deunydd ailgylchu o'u gwirfodd, ac wedyn cyhoeddi'r wybodaeth honno. A gredwch ei fod yn ddoeth ceisio gwella'r trefniadau presennol yn y ffordd hon cyn ymgymryd â dull deddfwriaethol?

Nerys Evans: Â hyn â ni at wraidd y mater: ai dull gwirfoddol ynteu ddull statudol yr ydym am ei weld? Wrth gwrs, gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r system WasteDataFlow yn wirfoddol ar hyn o bryd i gasglu'r wybodaeth hon. Holais awdurdodau lleol yn ystod cam paratoi'r Mesur

the proposed Measure, and only one local authority was able to provide the information. So, one local authority is using that system voluntarily at the moment, but the others are not. That goes to the crux of the matter. They can do it voluntarily now, but they do not. If the Minister's response is that we should go down the voluntary route, we know that, realistically, that is not going to happen. That is why I think that a statutory requirement through the proposed Measure is needed.

9.40 a.m.

[24] **Val Lloyd:** The Minister for Environment, Sustainability and Housing and Environment Agency Wales asserted that, if a voluntary approach was unsuccessful, the aims of the proposed Measure could be met by using existing powers under section 30 of the Waste and Emissions Trading Act 2003. That Act would enable the Welsh Ministers to make regulations that would require local authorities to provide them with information about what happens to their waste. The Minister suggested that that information could subsequently be made available to the public. If that is the case, why is the proposed Measure necessary? What added value does it provide?

[25] **Nerys Evans:** I will ask Joanest to come in on this, but my understanding is that the Waste and Emissions Trading Act 2003 is about reducing the amount of biodegradable waste that goes to landfill. Member states are required to establish a national strategy for the reduction of biodegradable waste going to landfill, and that strategy must ensure that targets for the reduction of the amount of biodegradable waste going to landfill are met. So, section 30 contains a power for the Welsh Ministers to make regulations requiring local authorities to have municipal waste management strategies and to provide information about biodegradable waste but, from my understanding, that does not cover what we are trying to do with this proposed Measure. I will ask Joanest to clarify it further, if possible.

arfaethedig, a dim ond un awdurdod lleol a oedd yn gallu darparu'r wybodaeth. Felly, un awdurdod lleol yn unig sy'n defnyddio'r system yn wirfoddol ar hyn o bryd, ond nid y gweddill. Â hynny at wraidd y mater. Gallant wneud hynny'n wirfoddol yn awr ond nid ydynt yn gwneud hynny. Os dilyn y llwybr gwirfoddol yw ymateb y Gweinidog, gwyddom nad yw hynny'n mynd i ddigwydd, yn realistig. Dyna pam mae angen gofyniad statudol, drwy'r Mesur arfaethedig, yn fy marn i.

Val Lloyd: Petai dull gwirfoddol yn aflwyddiannus, dywedodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac Asiantaeth yr Amgylchedd y gellid cyflawni nodau'r Mesur arfaethedig gan ddefnyddio'r pwerau sydd eisoes ar gael o dan adran 30 o Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003. Byddai'r Ddeddf honno'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybodaeth iddynt am yr hyn sy'n digwydd i'w gwastraff. Awgrymodd y Gweinidog y gellid darparu'r wybodaeth honno i'r cyhoedd wedyn. Os dyna'r achos, pam mae angen y Mesur arfaethedig? Pa werth ychwanegol y mae'n ei ddarparu?

Nerys Evans: Gofynnaf i Joanest siarad ar hyn ond, yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003 yn ymwneud â lleihau maint y gwastraff bioddiraddadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Mae'n rhaid i aelod-wladwriaethau sefydlu strategaeth genedlaethol ar gyfer lleihau'r gwastraff bioddiraddadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, a rhaid i'r strategaeth honno sicrhau y cyrhaeddir y targedau ar gyfer lleihau maint y gwastraff bioddiraddadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Felly, mae adran 30 yn cynnwys pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n mynnu bod gan awdurdodau lleol strategaethau rheoli gwastraff trefol a darparu gwybodaeth am wastraff bioddiraddadwy ond, yn ôl yr hyn a ddeallaf, nid yw hynny'n cynnwys yr hyn yr ydym yn ceisio'i wneud gyda'r Mesur arfaethedig hwn. Gofynnaf i Joanest esbonio rhagor ar hyn, os oes modd.

[26] **Ms Jackson:** The 2003 Act is intended to give effect to what we would refer to as the landfill directive. As Nerys has said, the aim of that directive is to reduce the amount of biodegradable waste going to landfill. There are powers to make regulations contained in that Act, as referred to, in section 30. However, any regulations would have to be set in the context of that Act and I am not convinced that the power for collecting this information would be entirely within the vires of the Act. I will go no further than to say that there is a doubt. I also remind Members that powers to make regulations are discretionary powers that can be exercised by the Minister or not. They are not requirements, as could be contained in a Measure.

[27] **Rosemary Butler:** I am getting a little confused about what information there is and what is to be collected. Joanest has just said that the new proposal does not include the power to collect information.

[28] **Ms Jackson:** If regulations were made, they would require local authorities to provide information to Ministers, but they would not require its publication. They would require information to be provided to Ministers in connection with collection, verification or the certification of information and the form in which such information is provided, and they could note when duties imposed by the regulations were to be performed. They would apply to county councils and county borough councils. Without seeing a full draft set of regulations, I could not agree with the Minister with certainty that this power could properly be used to require the information set out in the proposed Measure. The regulations could not require publication, I do not think.

[29] **Val Lloyd:** Are you saying that they would for collection but not for publishing?

[30] **Ms Jackson:** Yes.

[31] **Val Lloyd:** Thank you.

[32] **Rosemary Butler:** Maybe we can ask the Minister to clarify her position on

Ms Jackson: Bwriad Deddf 2003 yw rhoi'r hyn y byddem yn cyfeirio ato fel y gyfarwydddeb tirlenwi ar waith. Fel y dywedodd Nerys, nod y gyfarwydddeb honno yw lleihau maint y gwastraff bioddiraddadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Mae pwerau yn y Ddeddf honno i wneud rheoliadau, fel y cyfeiriwyd atynt, yn adran 30. Ond, byddai'n rhaid gosod unrhyw reoliadau yng nghydestun y Ddeddf honno, ac nid wyf yn gwbl sicr a fyddai'r pŵer i gasglu'r wybodaeth hon yn gyfan gwbl o fewn awdurdod y Ddeddf. Y cyfan a ddywedaf yw bod amheuaeth. Atgoffaf yr Aelodau hefyd mai pwerau disgresiwn yw'r pwerau i wneud rheoliadau y gall y Gweinidog eu harfer neu beidio. Nid ydynt yn ofynion fel y gellid eu cynnwys mewn Mesur.

Rosemary Butler: Yr wyf ychydig yn ddryslyd ynghylch pa wybodaeth sydd ar gael a beth sydd i'w gasglu. Mae Joanest newydd ddweud nad yw'r cynnig newydd yn cynnwys y pŵer i gasglu gwybodaeth.

Ms Jackson: Petai rheoliadau'n cael eu gwneud, byddent yn mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth i Weinidogion, ond ni fyddent yn mynnu bod yr wybodaeth yn cael ei chyhoeddi. Byddent yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion yng nghyswllt casglu, dilysu neu ardystio gwybodaeth ac ym mha ffurf y darperir y cyfryw wybodaeth, a gallent nodi pryd y dylid cyflawni'r dyletswyddau a osodir gan y rheoliadau. Byddent yn berthnasol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Heb weld set ddrafft lawn o reoliadau, ni allwn gytuno â'r Gweinidog gyda sicrwydd y gellid defnyddio'r pŵer hwn i gael yr wybodaeth a bennir yn y Mesur arfaethedig. Ni chredaf y gallai'r rheoliadau fynnu bod yr wybodaeth yn cael ei chyhoeddi.

Val Lloyd: A ydych yn dweud y byddent yn gwneud ar gyfer casglu ond nid ar gyfer cyhoeddi?

Ms Jackson: Ydwyf

Val Lloyd: Diolch.

Rosemary Butler: Efallai y gallwn ofyn i'r Gweinidog esbonio'i safbwynt ar hynny. A

that. Are you finished there, Val?

ydych wedi gorffen, Val?

[33] **Val Lloyd:** Yes, thank you.

Val Lloyd: Ydwyf, diolch.

[34] **Rosemary Butler:** I will move on to Mohammad Asghar.

Rosemary Butler: Symudaf ymlaen at Mohammad Asghar.

[35] **Mohammad Asghar:** Good morning, Nerys. In its evidence to the committee, the Welsh Local Government Association questioned the benefit of providing the public with the specific information that would be required under the proposed Measure. It suggested that the public is more interested in how to recycle and where goods can be taken to be recycled than what happens to the waste, and that that is reflected in the queries that local authorities receive. What evidence do you have that the public has an appetite for the information that would be provided under the proposed Measure?

Mohammad Asghar: Bore da, Nerys. Yn ei thystiolaeth i'r pwyllgor, cwestiynai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fantais darparu gwybodaeth benodol i'r cyhoedd a fyddai'n ofynnol o dan y Mesur arfaethedig. Awgrymai fod gan y cyhoedd fwy o ddiddordeb mewn sut i ailgylchu a lle gellir mynd â nwyddau i'w hailgylchu na'r hyn sy'n digwydd i'r gwastraff a bod hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr ymholiadau a dderbynia awdurdodau lleol. Pa dystiolaeth sydd gennych fod y cyhoedd yn awyddus i gael yr wybodaeth a fyddai'n cael ei darparu o dan y Mesur arfaethedig?

[36] **Nerys Evans:** The public's interest in knowing what happens to recycling is evident, if only from media stories. The media would not cover stories about where recycling is dealt with if it did not think that there was a public appetite to find out about it. Certainly, as a member of the public, I am interested in knowing where my waste goes to be recycled.

Nerys Evans: Mae diddordeb y cyhoedd mewn cael gwybod beth sy'n digwydd i ddeunydd ailgylchu'n amlwg, dim ond o ddarllen storïau yn y cyfryngau. Ni fyddai'r cyfryngau'n trafod storïau am lle yr ymdrinnir â deunydd ailgylchu os nad oeddynt yn teimlo bod y cyhoedd yn awyddus i gael gwybod hynny. Yn sicr, fel aelod o'r cyhoedd, mae gennyf i ddiddordeb mewn gwybod lle mae fy ngwastraff yn mynd i'w ailgylchu.

[37] The Enviro report for the Welsh Assembly Government shows that a few local authorities across the UK are already publishing this information, so it is clear that those authorities see the benefit of doing that, and they see an appetite among the public, their constituents, to have that information. The Somerset Waste Partnership, which I have referred to previously, is a good example of that approach, in that the local authority sees the need to pass this information on, the public has an appetite to see what is happening to its waste, and the authority is going about it voluntarily.

Dengys adroddiad Enviro ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru fod ychydig o awdurdodau lleol yn y DU yn cyhoeddi'r wybodaeth hon eisoes, ac felly mae'n amlwg fod yr awdurdodau hyn yn gweld y budd o wneud hynny a gwelant fod y cyhoedd, eu hetholwyr, yn awyddus i gael yr wybodaeth honno. Mae Partneriaeth Gwastraff Gwlad yr Haf, yr wyf wedi cyfeirio ati'n flaenorol, yn enghraifft dda o'r dull hwnnw o weithredu, o ran bod yr awdurdod lleol yn gweld bod angen trosglwyddo'r wybodaeth hon, bod y cyhoedd yn awyddus i weld beth sy'n digwydd i'w gwastraff, a'r awdurdod yn delio gyda'r mater yn wirfoddol.

[38] **Mohammad Asghar:** We also have evidence from Environment Agency Wales. It has been suggested in evidence that the majority of the public simply wants

Mohammad Asghar: Mae gennym dystiolaeth hefyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Awgrymwyd mewn tystiolaeth mai'r cyfan y mae'r rhan fwyaf o'r

reassurance that its waste is being recycled and not sent to landfill. It goes on to question whether the public wants to get involved in the detail of what happens to its waste. How do you respond to that?

[39] **Nerys Evans:** The proposed Measure aims to encourage greater transparency and openness in how Welsh authorities deal with recycle. It does not require people to get involved in every minute aspect of it, but it will provide an opportunity for people to do so if they want to. So, it would not place a duty on people to make representations; it would place a duty on local authorities to ensure that that information is made available. It would then be up to members of the public to decide how to engage with and take that information on.

[40] Public involvement is also an Assembly Government and a European policy aim. The Welsh Government's consultation on a new zero-waste strategy sets out the main aim of encouraging the public to engage in issues to do with waste and recycling, and it states that the municipal waste sector plan that will be developed by the Government will seek to empower communities

[41] 'to develop their own local solutions'.

[42] So, the principle of providing people with the opportunity to be involved in decision making related to waste is enshrined in the European revised framework directive, which states that member states should do that to promote best practice. The principle to involve people is there, and this proposed Measure would just facilitate that and add to their knowledge of what is going on, to make their participation in the process more informed. On public participation, article 31 of the revised waste framework states that,

[43] 'Member States shall ensure that relevant stakeholders and authorities and the general public have the opportunity to participate in the elaboration of the waste

cyhoedd am ei gael yw sicrwydd bod eu gwastraff yn cael ei ailgylchu ac nad yw'n mynd i safleoedd tirlenwi. Â ymlaen i gwestiynu a yw'r cyhoedd eisiau cael gwybod beth sy'n digwydd i'w gwastraff yn fanwl. Sut yr ydych yn ymateb i hynny?

Nerys Evans: Diben y Mesur arfaethedig yw annog awdurdodau lleol Cymru i fod yn fwy tryloyw ac agored ynghylch sut y maent yn ymdrin â deunydd ailgylchu. Ni fydd yn rhaid i bobl ddod yn gysylltiedig â phob agwedd fach ohono, ond bydd yn rhoi cyfle i bobl wneud hynny os dyna yw eu dymuniad. Felly, ni fyddai'n gosod dyletswydd ar bobl i gyflwyno sylwadau; byddai'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau y darperir yr wybodaeth honno. Aelodau'r cyhoedd wedyn fyddai'n penderfynu beth i'w wneud â'r wybodaeth a sut i ymgysylltu â'r wybodaeth honno.

Mae cynnwys y cyhoedd yn un o nodau polisi Llywodraeth y Cynulliad ac Ewrop hefyd. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar strategaeth newydd ar gyfer dyfodol diwastraff yn nodi'r prif nod o annog y cyhoedd i gyfrannu at faterion yn ymwneud â gwastraff ac ailgylchu, ac mae'n nodi y bydd y cynllun sector gwastraff trefol a fydd yn cael ei ddatblygu gan y Llywodraeth yn ceisio grymuso cymunedau

i ddatblygu eu hatebion lleol eu hunain.

Felly, mae'r egwyddor o roi cyfle i bobl gyfrannu at benderfyniadau yn ymwneud â gwastraff wedi'i wreiddio yn y gyfarwyddeb fframwaith ddiwygiedig Ewropeaidd, sy'n datgan y dylai aelod-wladwriaethau wneud hynny i hyrwyddo arferion gorau. Mae'r egwyddor i gynnwys pobl yno, a'r cyfan y byddai'r Mesur arfaethedig hwn yn ei wneud fyddai hwyluso hynny ac ychwanegu at eu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd, er mwyn i'w cyfraniadau at y broses fod yn fwy gwybodus. Yng nghyswllt cyfraniad y cyhoedd, dywed erthygl 31 y fframwaith gwastraff ddiwygiedig,

y bydd yn rhaid i Aelod-wladwriaethau sicrhau bod rhanddeiliaid ac awdurdodau perthnasol a'r cyhoedd yn cael y cyfle i gyfrannu at ddatblygu'r cynlluniau rheoli

management plans and waste prevention programmes, and have access to them once elaborated'.

[44] So, the principles are there. The proposed Measure is just to make what is already happening more transparent and to ensure that the people of Wales have information about what happens to their waste in their local authorities.

[45] **Rosemary Butler:** Once people know, what can they do about it if they are not happy with it?

[46] **Nerys Evans:** It is the same with any level of government, local, national, UK or European. If people are not happy, I am sure that they will let it be known. It will be up to the local authority to decide how to respond. You will always get people who are not happy with everything that local government does, and the same applies to all levels of government, but this is intended to be an educational process to ensure that people know what is going on, and I do not see any harm in that. We should not be ashamed of what is happening. Our waste is being exported, so let us be honest about it and show people what is going where. We should not be afraid of holding that debate with people.

[47] **Rosemary Butler:** Nick Ramsay is next.

[48] **Eleanor Burnham:** I think that I am next.

[49] **Rosemary Butler:** Sorry, Eleanor. I had covered your name up with a piece of paper.

9.50 a.m.

[50] **Eleanor Burnham:** Mae gennyf gwestiwn am gwmpas y Mesur arfaethedig. Yn ei thystiolaeth i'r pwyllgor, awgrymodd Asiantaeth yr Amgylchedd y dylid ehangu cwmpas y Mesur arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth fwy cynhwysfawr am ble y caiff yr holl ddeunydd a anfonir i'w ailgylchu ei ailbrosesu. Barn yr asiantaeth yw y byddai

gwastraff a'r rhaglenni atal gwastraff, a chael mynediad atynt unwaith y byddant wedi'u datblygu.

Felly, mae'r egwyddorion yno. Bwriad y Mesur arfaethedig yn syml yw gwneud yr hyn sydd eisoes yn digwydd yn fwy tryloyw a sicrhau bod pobl Cymru'n meddu ar wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i'w gwastraff yn eu hawdurdodau lleol.

Rosemary Butler: Unwaith y bydd pobl yn gwybod, beth y gallant ei wneud amdano os ydynt yn anhapus yn ei gylch?

Nerys Evans: Mae'r un peth yn wir gydag unrhyw lefel ar lywodraeth, lleol, cenedlaethol, y DU neu Ewropeaidd. Os nad yw pobl yn hapus, yr wyf yn sicr y byddant yn datgan hynny. Mater i'r awdurdod lleol fydd penderfynu sut i ymateb. Cewch bobl bob amser nad ydynt yn hapus â phopeth a wna llywodraeth leol, ac mae'r un peth yn berthnasol i bob lefel ar lywodraeth, ond bwriedir i hyn fod yn broses addysgol i sicrhau bod pobl yn gwybod beth sy'n digwydd ac ni welaf ddim drwg yn hynny. Ni ddylem fod â chywilydd o'r hyn sy'n digwydd. Mae ein gwastraff yn cael ei allforio, felly gadewch inni fod yn onest am y mater a dangos i bobl beth sy'n mynd i ble. Ni ddylem fod ag ofn cael y ddadl honno gyda phobl.

Rosemary Butler: Nick Ramsay fydd nesaf.

Eleanor Burnham: Credaf mai fi sydd nesaf.

Rosemary Butler: Mae'n ddrwg gennyf, Eleanor. Yr wyf wedi gorchuddio'ch enw â darn o bapur.

Eleanor Burnham: I have a question about the scope of the proposed Measure. In its evidence to the committee, Environment Agency Wales suggested that the scope of the proposed Measure should be extended to require local authorities to publish more comprehensive information about where all the material that is sent for recycling is reprocessed. The agency believes that that

hynny'n rhoi cyd-destun addas wrth edrych ar wastraff a gaiff ei allforio i'w adfer y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac ardal masnach rydd Ewrop, ac y byddai hefyd yn gymorth i osgoi unrhyw sylw negyddol yn y wasg-ac yr ydych wedi cyfeirio at hynny yn barod. Pam ydych wedi dewis cyfyngu ar gwmpas y Mesur arfaethedig mewn ffordd sy'n golygu mai dim ond pan gaiff gwastraff ei allforio y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac ardal masnach rydd Ewrop y mae'n rhaid cyhoeddi gwybodaeth?

[51] **Nerys Evans:** Byddwn yn croesawu cyhoeddi unrhyw faint mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i'n gwastraff o fewn ffiniau'r Deyrnas Unedig. Mae'r wybodaeth am ble y mae'n gwastraff yn cael ei anfon o fewn ffiniau'r Deyrnas Unedig ar gael ar hyn o bryd drwy'r system WasteDataFlow. Felly, yn dechnegol, mae'r wybodaeth yno, ond mewn gwirionedd mae'n anodd iawn dehongli a dadansoddi'r system WasteDataFlow fel ag y mae. Ar hyn o bryd, nid oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i roi gwybod am wastraff a gaiff ei anfon y tu hwnt i ffiniau'r Deyrnas Unedig, a dyna lle mae fy Mesur arfaethedig yn dod i mewn. Felly, dyna pam yr ydym wedi dewis ffiniau'r Gymuned Ewropeaidd ac ardal masnach rydd Ewrop. Mae awdurdodau lleol yn gallu ychwanegu'r wybodaeth hon yn wirfoddol drwy'r system WasteDataFlow, ond nid oes gofyniad statudol arnynt i wneud hynny. Mae un awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymateb gyda'r wybodaeth hon, am ei fod wedi ymestyn y system WasteDataFlow i gael gwybodaeth am y gwastraff a gaiff ei allforio, ond nid yw'r awdurdodau lleol eraill yn gwneud hynny. Mae rhai awdurdodau lleol yn Lloegr yn gwneud yr un peth.

[52] Dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, sydd yn Saesneg yn unig,

[53] 'Providing the means for more information to be collected and shared with the general public may encourage the population to accept recycling facilities within their neighbourhoods which would be a positive outcome'.

[54] Felly, yr ydym yn cytuno y dylid cael mwy o drafodaeth am y gwastraff sy'n cael ei

would provide a proper context in which to view waste that is exported for recovery outside the European Community and the European free trade area, and that it would also help to avoid any potentially negative media coverage—and you have already referred to that. Why have you chosen to limit the scope of the proposed Measure to require information to be published only when waste is exported beyond the European Community and the European free trade area?

Nerys Evans: I would welcome the publication of any more information about what happens to our waste within the borders of the United Kingdom. The information about where our waste is sent within the confines of the United Kingdom is currently available through the WasteDataFlow system. Therefore, technically, the information is available, but in reality it is very difficult to interpret and analyse the WasteDataFlow system as it currently stands. Currently, there is no statutory duty on local authorities to provide information on waste that is shipped outside the United Kingdom's borders, and that is where my proposed Measure comes in. So, that is why we have chosen the boundaries of the European community and the European free trade area. Local authorities can include this information voluntarily via the WasteDataFlow system, but there is no statutory requirement for them to do so. One local authority in Wales has responded with this information, because it has extended the WasteDataFlow system to obtain information about waste that is exported, but the other local authorities do not do that. Some local authorities in England do the same.

In its response to the consultation, the Environment Agency said, and it is in English only, that

'Providing the means for more information to be collected and shared with the general public may encourage the population to accept recycling facilities within their neighbourhoods which would be a positive outcome'.

So, we agree that there should be more discussion about the waste that is dealt with

drin o fewn y Deyrnas Unedig, ond er bod y wybodaeth yn bodoli, mater i awdurdodau lleol yw penderfynu beth i'w wneud â'r wybodaeth honno. Nid oes unrhyw wybodaeth ar hyn o bryd am y gwastraff sy'n cael ei allforio, a dyna'r hyn y mae'r Mesur arfaethedig yn ceisio ei wneud.

[55] **Eleanor Burnham:** Byddai rhywrai yn honni eich bod yn codi bwganod gan fod y Mesur arfaethedig yn delio dim ond â gwastraff sy'n cael ei allforio y tu hwnt i Ewrop. Mae hwnnw'n gwestiwn diddorol dros ben. Mae llawer o'r bobl sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor wedi honni mai adnodd yw gwastraff, felly sut ydych yn ymateb i'r honiad eich bod yn codi bwganod?

[56] **Nerys Evans:** Os codi bwganod yw rhoi mwy o wybodaeth i bobl am yr hyn sy'n digwydd, yr wyf yn euog o hynny. Y cyfan yr ydym yn ceisio ei wneud yw sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybod am bopeth sy'n digwydd. Yr ydym wedi dewis ffiniau Ewrop achos yr ydym yn cymryd bod y cyfleusterau o fewn ffiniau Ewrop o'r un safon ag unrhyw gyfleusterau yng Nghymru neu'r Deyrnas Unedig. Byddem wedi gallu gosod y Deyrnas Unedig fel y ffin, ond o edrych ar safonau ailgylchu o fewn ffiniau Ewrop, gwelwn y byddai'n well inni osod Ewrop fel y ffin, a bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi gwybod am bopeth sy'n cael ei allforio y tu hwnt i'r ffin honno. Os ydych yn credu y dylem dynhau'r ffin i gael mwy o wybodaeth gan awdurdodau lleol, gallem ystyried hynny. Gan fod safon ailgylchu o fewn Ewrop o safon uchel iawn, y ffin y tu hwnt i Ewrop yw'r un orau inni edrych arni.

[57] **Rosemary Butler:** Those views were Eleanor's personal views; scaremongering is not in our brief.

[58] **Eleanor Burnham:** I was just trying to dig a bit deeper.

[59] Yn y bôn, yr hyn sydd yn eich poeni yw'r safonau sy'n cael eu defnyddio y tu allan i Brydain ac Ewrop.

[60] **Nerys Evans:** Na, yr hyn sy'n fy mhoeni yw bod pobl angen cael gwybod beth sy'n digwydd. Yr ydym yn rhan o Ewrop ac yn masnachu gyda gweddill Ewrop. Fel y

within the United Kingdom, but although that information exists, it is a matter for local authorities to decide what to do with that information. There is currently no information on the waste that is exported, and that is what the proposed Measure is seeking to do.

Eleanor Burnham: Some people would claim that you are scaremongering because the proposed Measure deals only with waste exported outside Europe. That is an extremely interesting question. Many of the people who have given evidence to the committee have claimed that waste is a resource, so how do you respond to the claim that you are scaremongering?

Nerys Evans: If it is scaremongering to give people more information about what is going on, I am guilty of that. All that we are trying to do is ensure that the public is informed of everything that is happening. We have chosen European boundaries because we presume that the facilities within European boundaries are of the same standard as any facilities in Wales or the United Kingdom. We could have set the UK as a boundary, but looking at the recycling standards within the boundaries of Europe, we see that it would be better to set Europe as a boundary and to require local authorities to provide information about everything that is exported beyond that boundary. If you are of the view that we should tighten the boundary to obtain more information from local authorities, we could look at that. Given that the standard of recycling in Europe is so high, the boundary beyond Europe is the best one to look at.

Rosemary Butler: Barn bersonol Eleanor oedd hynny; nid yw codi bwganod yn rhan o'n briff.

Eleanor Burnham: Dim ond ceisio mynd ymhellach o dan y croen yr oeddwn.

You are essentially concerned by the standards that are applied outside Britain and Europe.

Nerys Evans: No, what concerns me is that people should be aware of what is happening. We are part of Europe and we trade with the rest of Europe. As you said, waste is a

dywedaso, adnodd masnachol yw gwastraff, ac yr ydym yn derbyn hynny'n gyfan gwbl. Dyna pam mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei allforio. Mae honno'n un elfen, ond yr elfen fwyaf yw sicrhau bod y wybodaeth hon yn cyrraedd y cyhoedd.

[61] **Eleanor Burnham:** Pe bai'r wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei chyhoeddi er mwyn cydymffurfio â'ch gofynion yn y Mesur arfaethedig yn cael ei defnyddio allan o'i chyd-destun, mae pryder y gallai hynny amharu ar ffydd y cyhoedd mewn ailgylchu. Sut ydych chi'n ymateb i hynny? Sut y gall awdurdodau lleol sicrhau nad yw hynny'n digwydd?

[62] **Nerys Evans:** Ofni'r hyn nad yw'n hysbys eto yw hyn. Wrth gwrs nad yw'r awdurdodau lleol eisiau gwneud y gwaith ychwanegol hwn, ond mae buddiannau cyhoeddi'r wybodaeth hon yn fwy nac unrhyw anfanteision. Fel y dywedais o'r blaen, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn dweud,

[63] 'Providing the means for more information to be collected and shared with the general public may encourage the population to accept recycling facilities within their neighbourhoods which would be a positive outcome'.

[64] Mae'n rhaid inni gofio hefyd bod rhai awdurdodau lleol yn gwneud hyn yn wirfoddol beth bynnag. Mae enghraifft o hyn yng Ngwlad yr Haf ac yn adroddiad Enviro i Lywodraeth Cymru dywedir bod rhai awdurdodau yn Lloegr yn ei wneud beth bynnag. Felly, nid oes fawr o ofn agwedd y cyhoedd tuag atynt arnynt. Maent yn ei weld fel cam cadarnhaol ymlaen. Felly, codi bwganod yw hynny, i'w daflu yn ôl atoch.

[65] **Eleanor Burnham:** Cwestiwn am bryd y cyflwynir y ddeddfwriaeth yw hwn. Wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, yr oeddech yn cydnabod ei bod yn annhebygol y bydd y Mesur arfaethedig yn arwain at welliannau tan y bydd awdurdodau lleol yn adnewyddu eu cytundebau gyda chwmnïau gwastraff preifat, a gallai hynny fod yn fater o flynyddoedd. Os yw hynny'n wir, pam na wnewch aros tan y caiff y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig

commercial resource, and we entirely accept that. That is why local authorities have to export waste. That is one element of it, but the main element is ensuring that this information is passed on to the public.

Eleanor Burnham: How do you respond to the concern that, taken out of its context, the information published by local authorities to satisfy your requirements in the proposed Measure could damage public confidence in recycling? How do you think that local authorities can safeguard against that?

Nerys Evans: This is simply a fear of the unknown. Of course local authorities do not want to do this extra work, but the benefits of publishing this information outweigh any disadvantages. As I said previously, the Environment Agency states,

'Providing the means for more information to be collected and shared with the general public may encourage the population to accept recycling facilities within their neighbourhoods which would be a positive outcome'.

We must also bear in mind that some local authorities do this voluntarily anyway. There is an example of this in Somerset and the Enviro report to the Welsh Government stated that some authorities in England do this already. So, they have no great fear of public opinion on this. They see it as a positive step forward. So, that is scaremongering, to throw that back to you.

Eleanor Burnham: This is a question about the timing of the legislation. In giving evidence to the committee, you admitted that the proposed Measure is unlikely to bring about improvements until local authorities renew their contracts with private waste companies, which could be a matter of years. If that is the case, why will you not wait until the proposed environment legislative competence Order is made before tackling this issue? Would that not be a better

ynghylch yr amgylchedd ei basio cyn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn? Oni fyddai hynny'n gyfle gwell i gyflwyno deddfwriaeth a allai ymdrin â'r mater hwn ym mhob sector gwastraff ac ehangu'r cwmpas ar y mater pwysig hwn?

[66] **Nerys Evans:** Mae dau bwynt yma. Yn gyntaf, bu ichi dderbyn tystiolaeth oddi wrth y Gweinidog yr wythnos diwethaf a roddodd fwy o fanylion am amserlen LCO'r Llywodraeth, ond mae'n parhau heb ei basio, felly nid oes sôn am Fesur yn dod o ganlyniad i'r Gorchymyn hwnnw ar hyn o bryd. Yn ogystal, clywsoch oddi wrth y Gweinidog ei bod efallai'n ffafrio modd gwirfoddol o wneud hyn. Felly, os caiff y Gorchymyn ei basio ac nad yw'r Gweinidog yn credu y dylai hyn ddod dan ddeddfwriaeth, ni fydd yn ei wneud, yn blwmp ac yn blaen. Os bydd fy Mesur arfaethedig yn cael ei basio, bydd modd ei wella unwaith y mae'r Cynulliad yn cael mwy o rym yn y maes hwn drwy'r LCO amgylcheddol a allai ymestyn y Mesur arfaethedig i sicrhau bod cwmnïau sy'n trin y gwastraff yn dod o dan gwmpas y Mesur. Bydd modd gwella'r Mesur arfaethedig unwaith y bydd wedi cael ei basio yn hytrach na gwneud dim byd yn awr, gan aros nes, efallai, y bydd y Gorchymyn yn cael ei basio ac efallai y bydd gennym Weinidog sydd eisiau gwneud rhywbeth yn statudol o fewn yr amserlen o flwyddyn a hanner sydd ar ôl yn y Cynulliad hwn, rhywbeth sy'n annhebyg iawn o ddigwydd. Fodd bynnag, mae modd gwneud hyn yn awr a chyflwyno gwelliant yn y dyfodol a fydd yn ei ymestyn ymhellach i fanteisio yn fwy ar y buddiannau posibl.

[67] **Eleanor Burnham:** Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â monitro a rheoleiddio. Wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn pryderu nad yw'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer gwneud trefniadau monitro. Pam ddewisoch chi beidio â chynnwys darpariaeth o'r fath yn eich Mesur arfaethedig?

[68] **Nerys Evans:** Byddai rhoi cynllun monitro yn y Mesur arfaethedig yn mynd ymhellach na'r grym sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r Mesur arfaethedig yn seiliedig ar fater 12.5, sy'n ymwneud â sut mae llywodraeth leol yn gwneud ei gwaith ac yn

opportunity to bring forward legislation that would deal with this issue across all waste sectors and expand the scope of this important matter?

Nerys Evans: There are two points to raise. First, you received evidence from the Minister last week that gave more details on the timetable of the Government LCO, but it still has not been passed, so there is no talk of a Measure emanating from that LCO at present. You also heard from the Minister that she perhaps favours taking a voluntary approach towards this. So, if the LCO is passed, and the Minister does not believe that there should be a statutory duty, she will not do it, to put it plainly. If my proposed Measure is passed, it would be possible to amend it once the Assembly gains competence in this area through the environment LCO, which could extend the scope of the proposed Measure to ensure that the companies that handle waste can be included in its remit. It will be possible to make amendments to the proposed Measure, once it will have been passed, rather than doing anything and waiting until, perhaps, the LCO is passed and we might have a Minister who wants to do that on a statutory basis in the timetable of a year and a half that is left to us in this Assembly, which I see as highly unlikely. However, it is possible for us to do this now and to amend it in the future to extend it further so that we can take greater advantage of its possible benefits.

Eleanor Burnham: This question relates to monitoring and regulation. In evidence to the committee, the Environment Agency raised concerns that the proposed Measure makes no provision for monitoring arrangements. Why did you choose not to include any such provision in your proposed Measure?

Nerys Evans: Including a monitoring scheme in the proposed Measure would go beyond the powers that we have at present. This proposed Measure is based on matter 12.5, which deals with how local government undertakes its work and improves it.

ei gwella. Felly, ni fydd yr elfen fonitro yn dod o dan gylch gwaith y Mesur arfaethedig hwn ar hyn o bryd.

Therefore, the monitoring aspect will not be included under the remit of this proposed Measure at present.

10.00 a.m.

[69] **Eleanor Burnham:** A ydych yn credu y bydd methu â chynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer monitro yn tanseilio pa mor effeithiol yw'r Mesur arfaethedig?

Eleanor Burnham: Do you consider that the failure to include any sort of monitoring provision could undermine the effectiveness of the proposed Measure?

[70] **Nerys Evans:** Monitro'r ffaith bod y wybodaeth yn cael ei chyhoeddi, ynteu monitro sut mae'r ailgylchu'n cael ei wneud?

Nerys Evans: Monitoring the publication of the information, or monitoring how recycling is actually done?

[71] **Eleanor Burnham:** Monitro yn gyffredinol.

Eleanor Burnham: Monitoring in general.

[72] **Nerys Evans:** Yr wyf yn cymryd y bydd pobl Cymru yn gallu monitro. Os oes deddfwriaeth wedi'i phasio yn nodi y dylai pobl Cymru gael gwybod lle caiff eu gwastraff ei ailgylchu, os nad yw awdurdod lleol yn gwneud hynny, mae'n siŵr y bydd digon o bobl yn cadw llygad barcud ar unrhyw ddatblygiadau. Mae digon o bobl ynghlwm â'r maes hwn, ac â diddordeb. Felly, o ran proses naturiol y monitro, credaf y bydd hynny'n digwydd beth bynnag, heb gael unrhyw system mewn deddfwriaeth i fonitro; fel y dywedais, ni allwn wneud hynny gan nad oes grym gennym o dan fater 12.5 i wneud hynny.

Nerys Evans: I presume that the people of Wales would be able to monitor. If legislation has been passed stating that the people of Wales should be told where their waste is recycled, if a local authority fails to do that, I am sure that there will be plenty of people keeping a close eye on any developments. There are plenty of people working in this area, and who have an interest. Therefore, in the natural process of monitoring, I think that that would happen in any case, without any system included in legislation for monitoring which, as I said, is not possible at present, because we do not have the power under matter 12.5 to so.

[73] **Eleanor Burnham:** Symudaf ymlaen yn awr at gyhoeddi gwybodaeth ar wefannau. Wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, cwestiynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru pa mor effeithiol fyddai defnyddio—

Eleanor Burnham: I will now move on to the publication of information on websites. In its evidence to the committee, the Welsh Local Government Association questioned the effectiveness of using—

[74] **Rosemary Butler:** Sorry; I think that it is—

Rosemary Butler: Mae'n ddrwg gennyf; credaf mai—

[75] **Eleanor Burnham:** Mae'n ddrwg iawn gennyf.

Eleanor Burnham: I am terribly sorry.

[76] **Rosemary Butler:** You are just enjoying yourself too much, Eleanor.

Rosemary Butler: Rydych yn mwynhau eich hun ormod, Eleanor.

[77] **Eleanor Burnham:** Absolutely. I am so sorry. That is my next question.

Eleanor Burnham: Yn hollol. Mae'n ddrwg iawn gennyf. Dyna fy nghwestiwn nesaf.

[78] **Rosemary Butler:** We will now move on to Nick Ramsay.

Rosemary Butler: Symudwn yn awr at Nick Ramsay.

[79] **Nick Ramsay:** I do not want to interfere. I will just sit here quietly.

Nick Ramsay: Nid wyf eisiau tarfu arnoch. Eisteddaff yma'n dawel.

[80] **Eleanor Burnham:** I got carried away slightly.

Eleanor Burnham: Anghofiais fy hun braidd.

[81] **Nick Ramsay:** In evidence to the committee, the Environment Agency Wales pointed out that local authorities would find it difficult to provide the information required under section 55A(5) in instances where its recycle is dealt with by charitable organisations, which generally do not have formal contracts. How does the proposed Measure take account of this?

Nick Ramsay: Yn eu tystiolaeth i'r pwyllgor, nododd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y byddai awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 55A(5) os mudiadau elusennol sy'n delio gyda'u deunydd ailgylchu, nad oes ganddynt fel arfer gontractau ffurfiol. Sut y mae'r Mesur arfaethedig yn delio gyda hyn?

[82] **Nerys Evans:** We know from the evidence from Somerset that it has the evidence from charitable organisations. They are used as a kind of middle man; so, they are able to do it. Obviously, the charitable organisations do not export waste themselves; they pass it on to a company that exports waste. Going back to the fundamental point, any company that exports waste has to provide an annex 7 form, which has broadly the same information as required in my proposed Measure. Therefore, it would just be an extra link in the chain, if you like, rather than making it impossible. If local authorities deal with voluntary organisations, they must deal with the processor and a company that exports waste and has this information. Again, it is just another link in the chain to pass the information down to local authorities. Somerset and other local authorities are doing it. It is, by no means, a burden that would mean that this proposed Measure would not work.

Nerys Evans: Gwyddom o dystiolaeth Gwlad yr Haf fod y dystiolaeth gan fudiadau elusennol ganddo. Fe'u defnyddir fel rhyw fath o ddyn canol; felly, gallant wneud hynny. Wrth gwrs, nid yw'r mudiadau elusennol yn allforio gwastraff eu hunain; maent yn ei drosglwyddo i gwmni sy'n allforio gwastraff. Gan fynd yn ôl i'r prif bwynt, mae'n rhaid i unrhyw gwmni sy'n allforio gwastraff ddarparu ffurflen atodiad 7, sy'n cynnwys yr un wybodaeth, fwy neu lai, â'r wybodaeth sy'n ofynnol yn fy Mesur arfaethedig i. Felly, dolen arall yn y gadwyn fyddai hyn, i bob pwrpas, yn hytrach na'i wneud yn amhosibl. Os yw awdurdodau lleol yn delio gyda mudiadau gwirfoddol, mae'n rhaid iddynt ddelio gyda'r prosesydd a chwmni sy'n allforio gwastraff a'r wybodaeth hon ganddo. Unwaith eto, dim ond dolen arall ydyw yn y gadwyn i drosglwyddo'r wybodaeth i awdurdodau lleol. Mae Gwlad yr Haf ac awdurdodau lleol eraill yn gwneud hynny. Nid yw'n faich, o bell ffordd, a fyddai'n golygu na fyddai'r Mesur arfaethedig hwn yn gweithio.

[83] **Nick Ramsay:** The committee has received strong evidence to suggest that, while a local authority could be expected to provide information about where its recycle goes, it will be extremely difficult, if not impossible, for it to provide the level of detail required by section 55A(5) and, for this reason, the proposed Measure could be seen as unworkable. Can you explain why you chose to include such specific requirements?

Nick Ramsay: Mae'r pwyllgor wedi derbyn tystiolaeth gref i awgrymu, er y gellid disgwyl i awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth ynghylch lle mae ei ddeunydd ailgylchu'n mynd, y byddai'n ei chael yn anodd iawn, os nad yn amhosibl, darparu'r holl fanylder sy'n ofynnol gan adran 55A(5) ac, oherwydd hyn, gellid ystyried bod y Mesur arfaethedig yn anymarferol. A allwch esbonio pam ichi ddewis cynnwys gofynion mor benodol?

[84] **Nerys Evans:** I chose the

Nerys Evans: Dewisais y gofynion a osodir

requirements set out in section 55A(5) (a) to (f) because I think that the proposed Measure needs to be meaningful. It is not just a case of a certain local authority exporting certain waste to a certain country. We need a little more detail than that. The consultants' report to the Welsh Assembly Government, the Enviro report, states that it would be possible for local authorities to complete the annex 7 forms to provide most of the information that I have put down in my proposed Measure. Therefore, most of that information is already there. However, if the committee wanted to look again at the annex 7 forms to see how they compare with the information that I require in this proposed Measure, I am happy to look at that and, perhaps, streamline it to make sure that it is even easier for local authorities. Most of the information is there, so I am happy to look at that if the committee would want to consider it.

[85] **Rosemary Butler:** Can we just confirm that annex 7 means that local authorities have most but not all of the information required?

[86] **Nerys Evans:** If you look at the report that the Minister gave you last week—the Enviro report that she had from the consultants—you will see that there is a chart, which has a list of what the annex 7 form requires and what my proposed Measure requires. If the committee wants to recommend that I streamline the data required, I would be happy to look at that as a way of making it even easier to pass the information on.

[87] **Rosemary Butler:** I think that we have had some evidence that some of the specific information that you are seeking will be almost impossible to obtain. Therefore, we need to consider that and perhaps come back to you on it.

[88] **Nick Ramsay:** On a slightly different problem, we received evidence at our last session that stated the problems regarding what happens when municipal waste streams become mixed and are taken to a range of final destinations. It would be difficult to know what would happen to a

allan yn adran 55A(5) (a) i (f) oherwydd credaf fod yn rhaid i'r Mesur arfaethedig fod yn ystyrlon. Nid dim ond mater o awdurdod lleol penodol yn allforio gwastraff penodol i wlad benodol mohono. Mae angen mwy o fanylion na hynny arnom. Dywed adroddiad yr ymgynghorwyr i Lywodraeth y Cynulliad, adroddiad Enviro, y byddai modd i awdurdodau lleol lenwi'r ffurflenni atodiad 7 i ddarparu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yr wyf wedi'i phennu yn fy Mesur arfaethedig. Felly, mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth honno yno'n barod. Fodd bynnag, os hoffai'r pwyllgor edrych eto ar y ffurflenni atodiad 7 i weld sut y maent yn cymharu â'r wybodaeth y mae ei hangen arnaf yn y Mesur arfaethedig hwn, yr wyf yn fodlon edrych ar hynny ac, efallai, eu symleiddio i wneud yn siŵr eu bod hyd yn oed yn haws i awdurdodau lleol. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yno, ac felly yr wyf yn hapus i edrych ar hynny petai'r pwyllgor am ei ystyried.

Rosemary Butler: A allwn ni gadarnhau bod atodiad 7 yn golygu bod awdurdodau lleol yn meddu ar y rhan fwyaf ond nid y cyfan o'r wybodaeth ofynnol?

Nerys Evans: Os edrychwch ar yr adroddiad a roddodd y Gweinidog ichi yr wythnos diwethaf—yr adroddiad Enviro a gafodd gan yr ymgynghorwyr—fe welwch fod siart ynddo, sy'n rhestru beth sy'n rhaid ei ddarparu ar y ffurflen atodiad 7 a beth fydd yn rhaid ei ddarparu o dan fy Mesur arfaethedig i. Os yw'r pwyllgor eisiau argymhell imi symleiddio'r data gofynnol, byddwn yn fodlon edrych ar hynny fel ffordd o'i gwneud yn haws eto trosglwyddo'r wybodaeth.

Rosemary Butler: Credaf ein bod wedi cael rhywfaint o dystiolaeth y bydd rhywfaint o'r wybodaeth benodol yr ydych yn ei cheisio bron yn amhosibl ei chael. Felly, mae angen inni ystyried hynny a dod yn ôl atoch o bosibl.

Nick Ramsay: Yng nghyswllt problem ychydig yn wahanol, cawsom dystiolaeth yn ein sesiwn ddiwethaf a soniai am y problemau sy'n codi pan mae ffrydiau gwastraff trefol yn cael eu cymysgu ac yn cael eu hanfon i gyrchfannau terfynol amrywiol. Byddai'n anodd gwybod beth

local authority's share of that recycling. Have you taken account of that?

fyddai'n digwydd i gyfran awdurdod lleol o'r ailgylchu hwnnw. A ydych wedi ystyried hynny?

[89] **Nerys Evans:** I will return again to the useful Enviro report to the Assembly Government, which states that, where local authorities are dealing with intermediaries that are directly exporting waste materials, the potential for capturing that correct information is very high. The report also states that, while the process of collecting the information may be more difficult where there are several stages of processes involved, local authorities could require processors to provide the authority with this information as part of their contracts, in line with the authorities' duty of care requirement. So, it is possible.

Nerys Evans: Dychwelaf eto at adroddiad defnyddiol Enviro i Lywodraeth y Cynulliad, sy'n nodi bod y potensial i sicrhau'r wybodaeth gywir honno'n uchel iawn pan fydd awdurdodau lleol yn delio gyda chyrrff cyswllt sy'n uniongyrchol allforio deunyddiau gwastraff. Dywed yr adroddiad hefyd er y gall y broses o gasglu'r wybodaeth fod yn fwy anodd os oes sawl proses ynghlwm, gallai awdurdodau lleol fynnu bod proseswyr yn rhoi'r wybodaeth hon i'r awdurdod fel rhan o'u contractau, yn unol â gofyniad dyletswydd gofal awdurdodau. Felly, mae'n bosibl.

[90] Enviro also contacted a privately run materials recovery facility, which stated that it voluntarily collects the information contained in annex 7 forms from all processors and brokers, so that the company is satisfied that it has full traceability. So, if that company, mentioned in the Enviro report, can do it voluntarily just to satisfy its own need to know where the waste is sent to be recycled, it is possible for other MRFs to do it as well. It is also the Assembly Government's policy to encourage kerbside sorting of waste, so that, over time, this would be even easier, because more local authorities would move to kerbside recycling and cut out more of the links in the chain.

Cysylltodd Enviro hefyd â chyfleuster adfer deunyddiau preifat, a ddywedodd ei fod yn casglu'r wybodaeth yn ffurflenni atodiad 7 yn wirfoddol oddi wrth yr holl broseswyr a broceriaid, er mwyn i'r cwmni fod yn fodlon y gall olrhain popeth yn llawn. Felly, os gall y cwmni hwnnw, a grybwyllir yn adroddiad Enviro, wneud hynny'n wirfoddol dim ond er mwyn bodloni'i angen ei hun i wybod lle mae'r gwastraff yn cael ei anfon i'w ailgylchu, mae modd i gyfleusterau adfer deunyddiau eraill wneud hynny hefyd. Mae'n bolisi gan Lywodraeth y Cynulliad hefyd i annog didoli gwastraff wrth ei gasglu o ddrws i ddrws, fel y byddai hyn, dros amser, yn haws eto, oherwydd byddai mwy o awdurdodau lleol yn symud i ailgylchu o ddrws i ddrws a chael gwared â mwy o'r dolenni yn y gadwyn.

[91] **Nick Ramsay:** It is an important issue, because, not to overstate, we have received some very real concerns by some witnesses about the complexity issue. So, that problem has certainly been drawn to our attention, and that is why I asked you that question, although it may be repetitive in some respects. You accept that there is a potential problem here of local authorities running into hugely complex issues of trying to work out where this waste is going.

Nick Ramsay: Mae'n fater pwysig, oherwydd, heb or-ddweud, yr ydym wedi derbyn rhai pryderon gwirioneddol gan rai tystion am y mater cymhlethod. Felly, mae'r broblem honno yn sicr wedi'i dwyn i'n sylw ni, a dyna pam y gofynnais y cwestiwn hwnnw ichi, er y gall fod yn ailadroddus i ryw raddau. Yr ydych yn derbyn bob problem yma o bosibl o awdurdodau lleol yn wynebu materion cymhleth iawn o geisio canfod i lle mae'r gwastraff hwn yn mynd.

[92] **Nerys Evans:** I think that those concerns come from local authorities and organisations that have not really thought

Nerys Evans: Credaf fod y pryderon hynny'n cael eu lleisio gan awdurdodau lleol a sefydliadau nad ydynt wedi meddwl o ddifrif

about this issue. However, looking at the evidence and across the board at local authorities, companies and brokers across the UK, you will see that some are doing it voluntarily. They are not doing it to be awkward, but because they think that there is a value to it and that it is relatively easy to do.

[93] Going back to the report, the privately run MRF that I mentioned earlier is A. J. Recycling Ltd in Pembrokeshire, which stated:

[94] 'We collect Annex VII forms from all brokers and processors where wastes are sent overseas. We do this voluntarily as we endeavour to find out where all the waste from the site goes so that we have full traceability.'

[95] I can empathise with some concern, but it is possibly because they have not really thought about it before and not thought through how it will happen. If you look at evidence of local authorities, companies or MRFs doing it already, it is possible, and I think that that should alleviate some of the concerns that have been raised to the committee.

[96] **Rosemary Butler:** The Enviro report states, on page 13, point 4.2.1, option 1, the need to:

[97] 'Place an obligation on local authorities to collect Annex VII Forms from MRFs/processors/brokers as necessary for all waste shipments'.

[98] It goes on to state that there are a number of practical impediments to the implementation of this option: identifying the final reprocessor, traceability, co-ordination and guidance, and resources. Do you have any comments on that?

[99] **Nerys Evans:** As it states, those would be practical impediments, but identifying the final reprocessor would be more problematic if there were more links in the chain. However, as we have seen, for example, in Somerset, even where there are charitable organisations taking part in the

am y mater hwn. Ond, wrth edrych ar y dystiolaeth ac ar draws y bwrdd ar awdurdodau lleol, cwmnïau a broceriaid ledled y DU, fe welwch fod rhai yn gwneud hyn o'u gwirfodd. Nid ydynt yn ei wneud i fod yn drafferthus, ond oherwydd y credant ei fod yn werthfawr ac yn gymharol hawdd.

Gan ddychwelyd at yr adroddiad, y cwmni preifat sy'n rhedeg y cyfleusterau adfer deunyddiau y cyfeiriais ato'n gynharach yw A. J. Recycling Ltd yn Sir Benfro, a nododd:

Rydym yn casglu ffurflenni Atodiad VII gan bob brocer a phrosesydd pan anfonir gwastraff dramor. Gwnawn hyn yn wirfoddol a cheisio canfod lle mae'r holl wastraff o'r safle'n mynd er mwyn inni allu olrhain y gwastraff hwnnw'n llawn.

Gallaf gydymdeimlo i ryw raddau â'r pryderon, ond efallai nad ydynt wedi meddwl digon amdano o'r blaen a heb ystyried yn llawn sut y bydd yn digwydd. Os edrychwch ar dystiolaeth awdurdodau lleol, cwmnïau neu gyfleusterau adfer deunyddiau sydd eisoes yn gwneud hyn, mae'n bosibl, a chredaf y dylai hynny leddfu rhai o'r pryderon sydd wedi'u cyflwyno i'r pwyllgor.

Rosemary Butler: Dywed adroddiad Enviro ar dudalen 13, pwynt 4.2.1, opsiwn 1, fod angen:

Gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gasglu Ffurflenni Atodiad VII oddi wrth Gyfleusterau Adfer Deunyddiau/proseswyr/broceraid yn ôl yr angen ar gyfer pob gwastraff a gludir.

Â ymlaen i ddatgan bod nifer o rwystrau ymarferol i weithredu'r opsiwn hwn: canfod yr ailbrosesydd terfynol, y gallu i olrhain, cydgyssylltu ac arweiniad, ac adnoddau. A oes gennych sylwadau am hynny?

Nerys Evans: Fel y noda, byddai'r rheini'n sicr yn rhwystrau ymarferol, ond byddai canfod yr ailbrosesydd terfynol yn fwy o broblem, petai mwy o ddolenni yn y gadwyn. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi'i weld, er enghraifft, yng Ngwlad yr Haf, hyd yn oed pan mae mudiadau gwirfoddol yn rhan o'r

recycling process, the authority managed to get that information. It is about how many links you have in the chain, because, as I said, any company that exports waste has this annex 7 form. So, it is just a matter of changing the recording procedures, so that, in any relationship or contracts that a local authority has—in a sense, how many middle men it has—the information is trickled down the stream before exporting waste to be recycled.

10.10 a.m.

[100] **Rosemary Butler:** We received some interesting information from the private sector. It stated that, if it was just one transit, it would be fine, but often, those shipments are broken up again, and it would be extreme to ask for that information on each of those segments. Further down the line, you might have one particular item of recyclate that goes through six or seven importers and exporters. How do you deal with that?

[101] **Nerys Evans:** There is provision in the proposed Measure to deal with that. Section 55A(7) accepts that it may sometimes be necessary to estimate, because we do not want to be too restrictive on local authorities. There is flexibility to estimate if that is appropriate for the local authority. However, we want to have an idea of what goes where, and so local authorities have to try to get that information.

[102] **Eleanor Burnham:** An additional question was posed by one witness who suggested that, because of commercial confidentiality, the practices stipulated in the proposed Measure could reduce the price that local authorities get for their waste. As we have discussed before, waste is a commodity on the open market, and there was strong evidence that local authorities would not get so much money for their waste under these proposals. How do you answer that?

[103] **Nerys Evans:** Some local authorities are doing this already; they do not see it as a burden, or a factor that might increase their costs.

broses ailgylchu, llwyddodd yr awdurdod i gael yr wybodaeth honno. Mae'n ymwneud â faint o ddolenni sydd gennych yn y gadwyn, oherwydd, fel y dywedais, mae gan unrhyw gwmni sy'n allforio gwastraff y ffurflen atodiad 7 hon. Felly, y cyfan y bydd yn rhaid ei wneud fydd newid y trefniadau cofnodi er mwyn i'r wybodaeth, mewn unrhyw berthynas neu gontract sydd gan awdurdod lleol—faint o ddynion canol sydd ganddo yn ei hanfod—gael ei throsglwyddo i lawr y ffrwd cyn allforio gwastraff i'w ailgylchu.

Rosemary Butler: Derbyniasom wybodaeth ddiddorol gan y sector preifat. Datganai y byddai popeth yn iawn petai'r broses yn golygu un daith yn unig, ond, yn aml, mae'r deunyddiau sy'n cael eu cludo'n cael eu gwahanu eto, a byddai'n eithafol gofyn am yr wybodaeth honno am bob un o'r segmentau hynny. Yn nes ymlaen yn y broses, efallai y bydd gennych un eitem o ddeunydd ailgylchu a fydd yn mynd trwy ddwylo chwech neu saith mewnofiwr ac allfoiriwr. Sut y byddwch yn delio gyda hynny?

Nerys Evans: Ceir darpariaeth yn y Mesur arfaethedig i ddelio gyda hynny. Mae adran 55A(7) yn derbyn y bydd yn rhaid amcangyfrif weithiau, gan nad ydym eisiau cyfyngu gormod ar awdurdodau lleol. Mae hyblygrwydd i amcangyfrif os yw hynny'n briodol i'r awdurdod lleol. Ond, yr ydym eisiau syniad o beth sy'n mynd i lle, ac felly mae'n rhaid i awdurdodau lleol geisio cael yr wybodaeth honno.

Eleanor Burnham: Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol gan un tyst a awgrymodd, y gallai'r arferion a nodir yn y Mesur Arfaethedig, oherwydd cyfrinachedd masnachol, leihau'r pris y mae awdurdodau lleol yn ei gael am eu gwastraff. Fel y trafodwyd gennym o'r blaen, mae gwastraff yn nwydd ar y farchnad agored, a chafwyd tystiolaeth gref na fyddai awdurdodau lleol yn cael cymaint o arian am eu gwastraff dan y cynigion hyn. Sut yr ydych yn ateb hynny?

Nerys Evans: Mae rhai awdurdodau lleol yn gwneud hyn yn barod; nid ydynt yn ei ystyried yn faich, nac yn ffactor a allai gynyddu'u costau.

[104] **Eleanor Burnham:** No, it was a reduction of price rather than an increase in cost. If these details about what happens to the waste were known, that could affect the price of this commodity—that is, the waste—on the open market. The waste is being sold by brokers and, without commercial confidentiality, the price for the commodity would decrease, and therefore the local authority would not make so much money from waste.

[105] **Nerys Evans:** I do not completely accept that argument, because it would not be the broker passing on information—it would be the exporting company. As I said, this is happening already in some local authority areas, and they do not see a problem in getting a good price for their commodity. I understand the possible concern there, but some local authorities are doing this already with no problems.

[106] **Nick Ramsay:** I have two more questions, Chair. First, Nerys, you referred to the example of the Somerset Waste Partnership, and understandably so. However, as I understand it, that waste partnership is not currently required to provide the level of detail that your proposed Measure would require of local authorities in Wales. Does that negate some of the arguments that you have used about Somerset?

[107] **Nerys Evans:** The principle in Somerset is an important one, but as you said, that partnership does not provide the level of detail that is required in my proposed Measure. However, the additional information that I have requested is available in the annex 7 forms, so although I go a step further in asking for more information than the Somerset waste partnership model, the information is there in the annex 7 forms.

[108] **Nick Ramsay:** In evidence to the committee, concern has been raised about the inclusion in section 55A(8) of the term 'reasonable steps'; this certainly came up in our evidence session last week. I can understand why it is in there, and on the face of it, it makes sense, but concern has been

Eleanor Burnham: Na, gostyngiad yn y pris yn hytrach na chynnydd yn y gost ydoedd. Petai manylion yr hyn sy'n digwydd i'r gwastraff yn hysbys, gallai effeithio ar bris y nwydd hwn—sef, y gwastraff—ar y farchnad agored. Mae'r gwastraff yn cael ei werthu gan froceriaid, a heb gyfrinachedd masnachol, byddai'r pris am y nwydd yn gostwng, ac felly ni fyddai'r awdurdod lleol yn gwneud cymaint o arian o wastraff.

Nerys Evans: Nid wyf yn derbyn y ddadl honno'n llwyr, gan nad y brocer fyddai'n trosglwyddo'r wybodaeth—y cwmni allforio fyddai'n gwneud hynny. Fel y dywedais, mae hyn yn digwydd eisoes mewn rhai awdurdodau lleol, ac nid yw cael pris da am eu nwydd yn broblem iddynt. Deallaf y pryder posibl yn hyn o beth, ond mae rhai awdurdodau lleol yn gwneud hyn yn barod heb ddim problemau.

Nick Ramsay: Mae gennyf ddau gwestiwn arall, Gadeirydd, Yn gyntaf, Nerys, yr ydych wedi cyfeirio at Bartneriaeth Gwastraff Gwlad yr Haf fel enghraifft, ac mae hynny'n ddealladwy. Ond, fel y deallaf, nid oes yn rhaid i'r bartneriaeth gwastraff honno ar hyn o bryd ddarparu'r holl fanylion y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol Cymru eu darparu o dan eich Mesur arfaethedig. A yw hyn yn tansilio rhai o'r dadleuon yr ydych wedi'u defnyddio yng nghyswllt Gwlad yr Haf?

Nerys Evans: Mae'r egwyddor yng Ngwlad yr Haf yn un bwysig, ond, fel y dywedasoeh, nid yw'r bartneriaeth honno'n darparu'r holl fanylion sy'n ofynnol yn fy Mesur arfaethedig. Ond, mae'r wybodaeth ychwanegol yr wyf wedi gofyn amdani ar gael yn y ffurflenni atodiad 7. Felly, er fy mod yn mynd gam ymhellach wrth ofyn am ragor o wybodaeth na model Partneriaeth Gwastraff Gwlad yr Haf, mae'r wybodaeth ar gael yn y ffurflenni atodiad 7.

Nick Ramsay: Mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, mynegwyd pryder ynghylch cynnwys y term 'reasonable steps' yn adran 55A(8); yn sicr codwyd hyn yn ein sesiwn rhoi tystiolaeth yr wythnos diwethaf. Gallaf ddeall pam mae wedi'i gynnwys ac, yn ôl pob golwg, mae'n gwneud synnwyr. Ond y

expressed that it could be subject to judicial challenge, which could become costly. In your view, what would a local authority have to do to ensure that it had taken 'reasonable steps' to obtain the information required under section 55A(5)? How would you ensure that a consistent approach is taken by all local authorities in Wales in that regard?

[109] **Nerys Evans:** I will hand over to Joanest for this one.

[110] **Ms Jackson:** The proposed Measure accepts that a local authority may not always have all the information needed. When we were dealing with this, we could have taken either of two possible approaches. One would have been to require local authorities to ensure that, in the future, they would always have the necessary information to comply. The other approach—the one that we took, and which is a less onerous approach—is to require local authorities to take reasonable steps to obtain the information, but to make it clear that they will not always be successful in obtaining this information. There is nothing unusual about the use of the term, 'reasonable steps'; it is commonly used in primary and secondary legislation. There are at least seven examples in the Environment Protection Act 1990, which would be amended by this proposed Measure.

[111] If a local authority is unable to provide the information on a particular matter, the new proposed section 55A(9) requires the authority to explain the steps that it has taken. The public will then be able to judge whether those steps are reasonable. In the highly unlikely event that a local authority has failed to take reasonable steps to obtain the information, I agree that its failure would be open to challenge in the courts, but provided that a local authority had acted in good faith, in my opinion, it would be highly unlikely for it to be found not to have taken reasonable steps to obtain the information. That is consistent with the spirit of the proposed Measure, namely not to place overly onerous burdens on the local authorities, but to improve the transparency in their decision making.

[112] **Rosemary Butler:** Eleanor you are next, and could you stick to your questions

mae pryder wedi'i fynegi y gallai hyn gael ei herio'n farnwrol, a allai fod yn gostus. Yn eich barn chi, beth fyddai'n rhaid i awdurdod lleol ei wneud i sicrhau ei fod wedi cymryd 'camau rhesymol' i gael yr wybodaeth ofynnol o dan adran 55A(5)? Sut y byddech yn sicrhau bod holl awdurdodau lleol Cymru yn gweithredu'n gyson yn y cyswllt hwnnw?

Nerys Evans: Caiff Joanest ateb y cwestiwn hwn.

Ms Jackson: Mae'r Mesur arfaethedig yn derbyn na fydd gan awdurdod lleol yr holl wybodaeth ofynnol bob amser. Pan oeddem yn delio gyda hyn, gallem fod wedi dewis un o ddau ddull posibl. Y cyntaf fyddai mynnu bod awdurdodau lleol yn y dyfodol yn sicrhau bod yr wybodaeth ofynnol i gydymffurfio yn eu meddiant bob amser. Yr ail ddull—yr un a ddewiswyd gennym, a'r un lleiaf beichus—yw mynnu bob awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol i gael yr wybodaeth, ond i nodi'n glir na fyddant bob amser yn llwyddo i gael yr wybodaeth hon. Nid oes dim yn anghyffredin yn y term 'camau rhesymol'; fe'i defnyddir yn gyffredin mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Ceir o leiaf saith enghraifft yn neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a fyddai'n cael ei diwygio gan y Mesur arfaethedig hwn.

Oni fydd awdurdod lleol yn gallu darparu'r wybodaeth am fater penodol, mae'r adran arfaethedig newydd 55A(9) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod esbonio'r camau y mae wedi'u cymryd. Bydd y cyhoedd wedyn yn gallu barnu a yw'r camau hynny'n rhesymol. Yn y sefyllfa annhebygol iawn o awdurdod lleol wedi methu â chymryd camau rhesymol i gael yr wybodaeth, cytunaf y byddai'i fethiant yn agored i'w herio yn y llysoedd, ond gyhyd â bod awdurdod lleol wedi gweithredu'n ddidwyll, yn fy marn i, byddai'n annhebygol iawn y'i ceid yn euog o beidio â chymryd camau rhesymol i gael yr wybodaeth. Mae hyn yn gyson ag ysbryd y Mesur arfaethedig, sef peidio â gosod beichiau rhy drwm ar yr awdurdodau lleol, ond i wella'r tryloywder wrth iddynt wneud penderfyniadau.

Rosemary Butler: Eleanor, chi sydd nesaf, ac a allech chi gadw at eich cwestiynau

because you are asking questions that are meant to be asked later, according to our agenda?

[113] **Eleanor Burnham:** I was about to say that I will go back to the question that I slipped up on.

[114] Mae fy nghwestiwn ar gyhoeddi gwybodaeth ar wefannau.

[115] **Rosemary Butler:** So, you are going back to question 9.

[116] **Eleanor Burnham:** No; I am on question 17.

[117] Wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, cwestiynodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru pa mor effeithiol fyddai defnyddio gwefannau awdurdodau lleol er mwyn cynnwys y cyhoedd yn y maes hwn. Dywedodd mai dim ond ychydig o bobl yn unig a fyddai'n credu bod y wybodaeth yn ddefnyddiol ac a fyddai'n chwilio amdani ar y wefan. Yr oedd amheuaeth a fyddai'r wybodaeth yn denu sylw mwyafrif y boblogaeth. Dywedodd y gymdeithas,

[118] 'If you put information on a website, only a limited number of people will find it useful and will go to the website to seek it out; whether it would attract the attention of the majority of the public is a questionable point.'

[119] Sut y byddech yn ymateb i'r mater pwysig hwn?

[120] **Nerys Evans:** Mae'n anodd deall sut y mae CLILC wedi dod i'r casgliad hwnnw. Er enghraifft, sut y mae wedi asesu effeithlonrwydd defnyddio safleoedd gwe i geisio cynnwys y cyhoedd yn y mater hwn o ystyried y ffaith nad oes gan unrhyw un yng Nghymru wefan o'r fath ar hyn o bryd? Yn ogystal â hynny, mae'n tansilio ei dadl y bydd y Mesur arfaethedig yn tansilio hyder y cyhoedd. Felly, mae'n anodd gwybod sut y daeth i'r casgliad hwnnw.

[121] Mae'r gofyniad i roi'r wybodaeth ar wefan yn un eithaf bach. Yn ein trafodaeth flaenorol, bu ichi awgrymu anfon rhyw fath o gylchlythyr at bobl. Fodd bynnag, nid

oherwydd yr ydych yn gofyn cwestiynau a ddylai gael eu gofyn yn ddiweddarach, yn ôl ein agenda?

Eleanor Burnham: Yr oeddwn ar fin dweud yr af yn ôl at y cwestiwn y baglais arno.

My question is on publishing information on websites.

Rosemary Butler: Felly, yr ydych am fynd yn ôl i gwestiwn 9.

Eleanor Burnham: Na; yr wyf ar gwestiwn 17.

In evidence to the committee, the Welsh Local Government Association questioned the effectiveness of using local authorities' websites to engage the public on this issue. It stated that only a limited number of people would find the information useful and would look for it on the website. There was doubt as to whether the information would attract the attention of the majority of the public. The association said,

'If you put information on a website, only a limited number of people will find it useful and will go to the website to seek it out; whether it would attract the attention of the majority of the public is a questionable point.'

How would you respond to this important matter?

Nerys Evans: It is difficult to understand how the WLGA has reached that conclusion. For example, how has it assessed the effectiveness of the use of websites to get the public involved in this issue given that no-one in Wales currently has such a website? Furthermore, it undermines its argument that public confidence would be undermined by this proposed Measure. So, it is difficult to work out how it reached that conclusion.

The requirement to provide information on a website is a minor one. In our previous discussion, you suggested sending some kind of newsletter to people. However, I did not

oeddwn am roi gymaint â hynny o faich ar yr awdurdodau lleol; yr wyf ond am sicrhau eu bod yn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth honno ar gael i bobl ac felly, yn fy marn i, y dull mwyaf syml a chost-effeithiol o wneud hynny yw ei rhoi ar eu gwefannau.

[122] **Eleanor Burnham:** Rhaid inni gofio nad oes gan rai pobl fynediad i'r we.

[123] **Nerys Evans:** Cawsom drafodaeth ar hyn hefyd yn y cyfarfod blaenorol. Caiff mwy o wybodaeth a gwasanaethau eu darparu ar y we heddiw. Fel cadeirydd grŵp band eang y Cynulliad, gwn ein bod yn gweithio ar geisio cael gwared ar y manau gwan. Fodd bynnag, y prif bwynt yw sicrhau bod y wybodaeth ar gael. Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngwrdd, bydd grwpiau a sefydliadau'n cymryd sylw o hynny ac yn cymryd diddordeb yn y maes hwn i sicrhau bod y wybodaeth ar gael, felly bydd ffyrdd eraill o ddod o hyd i'r wybodaeth. Felly, yr wyf am roi'r ddyletswydd hon ar awdurdodau lleol i roi'r wybodaeth hon ar eu gwefannau fel lleiafswm.

[124] **Eleanor Burnham:** Mae fy nghwestiwn nesaf ar yr egwyddor agosrwydd. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd y rhaglen gweithredu'r cynllun gwasanaeth ac Adnoddau mai dim ond wrth gludo llwythi o wastraff i'w gwaredu y mae'r egwyddor agosrwydd yn berthnasol a'i bod felly'n amherthnasol at ddiben y Mesur arfaethedig sy'n ymdrin yn benodol ag adfer gwastraff. A hoffech chi wneud sylwadau?

10.20 a.m.

[125] **Nerys Evans:** Hoffwn ofyn i Joanest wneud sylwadau os oes modd.

[126] **Ms Jackson:** When the proposed Measure was originally drafted, the most relevant European directive, which is referred to in the proposed Measure, was the waste framework directive. Subsequently, a new directive has been published, a revised waste framework directive, which is required to be transposed into domestic law by December 2010. The revised directive deals more precisely with the definitions of 'recovery' and 'disposal' of waste. I have discussed with

want to place that much of a burden on local authorities; I just want to ensure that they make that information available to people, and therefore, in my opinion, the most simple and cost-effective way of doing that is to place it on their websites.

Eleanor Burnham: We must remember that some people cannot access the internet.

Nerys Evans: We also discussed that in the previous meeting. More information and services are provided on the internet today. As chair of the broadband group in the Assembly, I know that we are working on trying to eradicate not spots. However, the main point is to ensure that the information is available. If you do not have access to the internet, then there will be groups and organisations who will take an interest in this area and will ensure that the information is available, so there will be other ways of accessing the information. Therefore, I want to place this duty on local authorities to put this information on their websites as a minimum.

Eleanor Burnham: My next question is no the proximity principle. In evidence to the committee, the waste and resources action programme said that the proximity principle only applies to shipments of waste for disposal and, as such, is irrelevant for the purpose of the proposed Measure, which deals specifically with recovery. Do you wish to comment on that?

Nerys Evans: I would like to ask Joanest to comment if possible.

Ms Jackson: Pan gafodd y Mesur arfaethedig ei ddrafftio'n wreiddiol, y gyfarwyddeb Ewropeaidd fwyaf perthnasol, y cyfeirir ati yn y Mesur arfaethedig, oedd y gyfarwyddeb fframwaith gwastraff. Ers hynny, mae cyfarwyddeb newydd wedi'i chyhoeddi, y gyfarwyddeb fframwaith gwastraff ddiwygiedig, y mae'n rhaid ei throsi i gyfraith ddomestig erbyn Rhagfyr 2010. Mae'r gyfarwyddeb ddiwygiedig yn delio'n fanylach gyda'r diffiniadau o 'adfer'

Nerys the possibility of bringing forward a new definition here and amending the definitions to take account of the definitions in the revised directive. Should the proposed Measure progress, we would revise the argument about the proximity principle relating to disposal in order to deal with recovery, and ensure that it is more in line with the revised directive.

[127] **Eleanor Burnham:** Mae'r Mesur arfaethedig yn diffinio'r egwyddor o 'agosrwydd' fel

[128] 'the principle that waste should be disposed of in one of the nearest appropriate installations'

[129] A ydych yn fodlon bod y diffiniad yn ddigon clir o ran yr hyn sydd wedi'i fwriadu? Pam y defnyddiwyd y term 'gwaredu' tra bod y Mesur arfaethedig yn ymwneud ag adfer gwastraff?

[130] **Ms Jackson:** May I come in on that? My previous answer relates to this. To take it on a little further, the revised directive, which deals with the principles of self-sufficiency and proximity, takes further what was set out in the original directive by requiring that networks or facilities should now deal with places where waste can be recovered as well as disposed of. Again, this is something that we would be able to take account of in revisions to the proposed Measure.

[131] **Rosemary Butler:** I am interested in the report on the proximity principle. It says that the proposed Measure places a clear emphasis on supporting the principles of proximity. Further on in the report, it stated that many local authorities in the UK export recycle to be reprocessed in countries outside the EU and the European free trade area. Why are they doing this? Is it feasible to expect authorities to abandon such markets in favour of local ones? There seems to be more of an emphasis on proximity.

[132] **Nerys Evans:** Our emphasis on the proximity principle in the proposed Measure

a 'gwaredu' gwastraff. Yr wyf wedi trafod gyda Nerys y posibilrwydd o gyflwyno diffiniad newydd yma a newid y diffiniadau i ystyried y diffiniadau yn y gyfarwyddeb ddiwygiedig. Os aiff y Mesur arfaethedig yn ei flaen, byddem yn adolygu'r ddadl am yr egwyddor agosrwydd sy'n ymwneud â gwaredu er mwyn delio gydag adfer a sicrhau ei fod yn fwy cydnaws â'r gyfarwyddeb ddiwygiedig.

Eleanor Burnham: The proposed Measure provides the meaning of 'the proximity principle' as

'the principle that waste should be disposed of in one of the nearest appropriate installations'

Are you content that the definition is sufficiently clear in its intention? Why is the term 'disposed' used when the proposed Measure relates to recovery?

Ms Jackson: A allaf ateb hynny? Mae fy ateb blaenorol yn berthnasol i hyn. I ddatblygu hyn ychydig yn rhagor, mae'r gyfarwyddeb ddiwygiedig, sy'n delio gydag egwyddorion hunan-gynhaliath ac agosrwydd, yn datblygu rhagor ar yr hyn a oedd yn y gyfarwyddeb wreiddiol drwy fynnu bod rhwydweithiau neu gyfleusterau yn awr yn delio gyda lleoedd lle gellir adfer gwastraff yn ogystal â'i waredu. Eto, dyma rywbeth y byddai modd inni ei ystyried wrth adolygu'r Mesur arfaethedig.

Rosemary Butler: Mae gennyf ddiddordeb yn yr adroddiad am yr egwyddor agosrwydd. Dywed fod y Mesur arfaethedig yn gosod pwyslais clir ar gefnogi egwyddorion agosrwydd. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad, dywedai fod llawer o awdurdodau lleol yn y DU yn allforio deunydd ailgylchu ar gyfer ei ailbroesu mewn gwledydd y tu allan i'r UE ac ardal masnach rydd Ewrop. Pam maent yn gwneud hyn? A yw'n ymarferol disgwyl i awdurdodau roi'r gorau i farchnadoedd o'r fath o blaid rhai lleol? Ymddengys fod mwy o bwyslais ar agosrwydd.

Nerys Evans: Mae ein pwyslais ar yr egwyddor agosrwydd yn y Mesur arfaethedig

is in line with all of the Assembly Government's policies to do with waste and all of the EU directives and regulations relating to waste. It is not unusual; it is a key element of recycling policy that we try to deal with the recycle as close as possible to where it was generated. So, although it is there, we are not trying to stop or discourage local authorities from exporting, because, in simple terms, we do not have the capacity, within the local authority borders, the border of Wales or that of the UK, to deal with all of the waste that is to be recycled. So, although we are not trying to discourage exporting, it is important to keep in line with the recycling policy in Wales and Europe at the moment, and that the proximity principle is put down in the proposed Measure because the ultimate aim is to ensure that everyone deals with their waste as near as possible to where it was generated. So, it is an important principle to put in.

[133] **Rosemary Butler:** Eleanor, have you finished?

[134] **Eleanor Burnham:** Do, diolch.

[135] **Irene James:** Staying with the proximity principle, while it may be one of the principles underpinning the Welsh Government's waste strategy, it is not the only issue that local authorities need to consider when making arrangements for dealing with its recycle. So why have you singled out the proximity principle above other important considerations, such as cost or the environmental impact, as the only issue that the public can make representations on?

[136] **Nerys Evans:** Section 55B(3) of the proposed Measure requires that an invitation is made to the public to make representations in writing to the authority with regard to the proximity principle, but that does not preclude the public from making representations on any other issues. Although the proximity principle is very important in trying to deal with our recycle as close as possible to the place it was generated, which is why it is important to set that out in the proposed Measure, other factors come into play and the public can make representations on any issue to the local authority.

yn cyd-fynd â holl bolisiau Llywodraeth y Cynulliad sy'n ymwneud â gwastraff a holl reoliadau a chyfarwyddbau'r UE yn ymwneud â gwastraff. Nid yw'n anghyffredin; un o elfennau allweddol polisi ailgylchu yw ein bod yn ceisio delio gyda'r deunydd ailgylchu mor agos ag y bo modd at ei bwynt cynhyrchu. Felly, er ei fod yno, nid ydym yn ceisio atal awdurdodau lleol rhag allforio nac yn ceisio'u cymell i beidio ag allforio, oherwydd, yn syml, nid oes gennym y gallu o fewn ffiniau awdurdodau lleol, ffin Cymru na ffin y DU, i ddelio gyda'r holl wastraff sydd i'w ailgylchu. Felly, er nad ydym yn ceisio cymell awdurdodau i beidio ag allforio, mae'n bwysig cydymffurfio â'r polisi ailgylchu yng Nghymru ac Ewrop ar hyn o bryd, ac mae'r egwyddor agosrwydd wedi'i chynnwys yn y Mesur arfaethedig oherwydd y nod yn y pen draw yw sicrhau bod pawb yn delio gyda'u gwastraff mor agos ag y bo modd i'w bwynt cynhyrchu. Felly, mae'n egwyddor bwysig i'w chynnwys.

Rosemary Butler: Eleanor, a ydych wedi gorffen?

Eleanor Burnham: Yes, thank you.

Irene James: Gan aros gyda'r egwyddor agosrwydd, er ei bod yn un o'r egwyddorion sy'n sail i strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru, nid dyma'r unig fater y mae angen i awdurdodau lleol ei ystyried wrth wneud trefniadau i ddelio gyda'u deunydd ailgylchu. Felly pam yr ydych wedi dwyn sylw at yr egwyddor agosrwydd ar draul ystyriaethau pwysig eraill, megis y gost neu'r effaith amgylcheddol, fel yr unig fater y gall y cyhoedd roi sylwadau arno?

Nerys Evans: Yn unol ag Adran 55B(3) y Mesur arfaethedig, mae'n rhaid gwahodd y cyhoedd i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r awdurdod am yr egwyddor agosrwydd, ond nid yw hynny'n atal y cyhoedd rhag cyflwyno sylwadau ar unrhyw faterion eraill. Er bod yr egwyddor agosrwydd yn bwysig iawn wrth geisio delio gyda'n deunydd ailgylchu mor agos ag y bo modd at ei bwynt cynhyrchu, a dyna pam mae'n bwysig nodi hynny yn y Mesur arfaethedig, mae ffactorau eraill yn berthnasol a gall y cyhoedd gyflwyno sylwadau ar unrhyw fater i'r awdurdod lleol.

[137] **Irene James:** How reasonable is it to expect the public to have regard to the proximity principle when making representations to local authorities under section 55B(3)?

[138] **Nerys Evans:** Although the public may not really know the ins and outs of the proximity principle, public interest in recycling generally and the issue of the shipment of waste has demonstrated that the public understands the practical meaning of the principle. In her evidence last week, the Minister emphasised her support for a national debate on recycling and its benefits. This support is illustrated in the consultation on the new Assembly Government strategy 'Towards Zero Waste', which, as I mentioned before, places an emphasis on community empowerment. Article 31 of the revised waste framework directive on public participation states that:

[139] 'Member states shall ensure that the relevant stakeholders and authorities and the general public have the opportunity to participate in the elaboration of the waste management plans and waste prevention programmes, and have access to them once elaborated'.

[140] This will increase public knowledge on waste management.

[141] **Irene James:** So, do you accept that, in order for the public to make meaningful representations, people would need to have a clear understanding of waste management generally and knowledge of the location of recycling installations specifically?

[142] **Nerys Evans:** People would not necessarily need to have all of that knowledge before making a representation. You would assume that anyone making a representation would have an interest in recycling and that they would therefore have some basic knowledge. However, that would not be a pre-requisite for making a representation. If the proposed Measure is passed and this duty is imposed on local authorities, attention will be focused on local authorities to see what they are doing in

Irene James: Pa mor rhesymol yw disgwyl i'r cyhoedd ystyried yr egwyddor agosrwydd wrth gyflwyno sylwadau i awdurdodau lleol o dan adran 55B(3)?

Nerys Evans: Er na fydd y cyhoedd fwy na thebyg yn gwybod manylion yr egwyddor agosrwydd, mae diddordeb y cyhoedd yn y maes ailgylchu'n gyffredinol a mater cludo gwastraff wedi dangos bod y cyhoedd yn deall ystyr ymarferol yr egwyddor. Yn ei thystiolaeth yr wythnos diwethaf, pwysleisiodd y Gweinidog ei chefnogaeth i ddadl genedlaethol ar ailgylchu a'i fanteision. Dangosir y gefnogaeth hon yn yr ymgynghoriad ar strategaeth newydd Llywodraeth y Cynulliad 'Tuag at Ddyfodol Ddiwastraff', sydd, fel y crybwyllais o'r blaen, yn gosod pwyslais ar rymuso cymunedau. Dywed Erthygl 31 y gyfarwyddeb fframwaith gwastraff ddiwygiedig ar gynnwys y cyhoedd:

'Member states shall ensure that the relevant stakeholders and authorities and the general public have the opportunity to participate in the elaboration of the waste management plans and waste prevention programmes, and have access to them once elaborated'.

Bydd hyn yn gwella gwybodaeth y cyhoedd am faes rheoli gwastraff.

Irene James: Felly, er mwyn i'r cyhoedd wneud sylwadau ystyrllon, a ydych yn derbyn y byddai angen i bobl feddu ar ddealltwriaeth glir o reoli gwastraff yn gyffredinol a gwybodaeth am leoliadau canolfannau ailgylchu'n benodol?

Nerys Evans: Ni fyddai'n rhaid i bobl, o anghenraid, feddu ar yr holl wybodaeth honno cyn cyflwyno sylwadau. Byddech yn tybio y byddai gan unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau ddiddordeb mewn ailgylchu ac y byddai ganddynt felly rywfaint o wybodaeth sylfaenol. Ond, ni fyddai hynny'n amod ar gyfer cyflwyno sylwadau. Os caiff y Mesur arfaethedig ei basio, a'r ddyletswydd hon yn cael ei gosod ar awdurdodau lleol, hoelir y sylw ar awdurdodau lleol i weld beth y maent yn ei wneud yng nghyswllt ailgylchu, a

recycling terms, which it is to be hoped would also generate public interest and widen the debate. People do not need to know the ins and outs of it; they just need to have an interest, as I am sure anybody who participates in recycling their waste does.

[143] **Irene James:** They would have to have some basic knowledge as well as an interest, would they not?

[144] **Nerys Evans:** I would imagine that, if local authorities were publishing this information, they would not do it coldly, but would explain what is available, why they are doing what they are doing and so on. I imagine that that would happen automatically. No local authority can deal with all of its recycling within the local authority boundary, Wales or the UK. Therefore, I imagine that that would have to be conveyed to the public, and not only by the local authority, but by the media, politicians and more generally. I suppose that that information would come naturally.

[145] **Irene James:** In evidence to the committee, the WLGA pointed out that local authorities,

[146] 'have a limited role to play in securing markets for recycle—they do not always deal with the end processor so representations may have very little impact.'

[147] How do you respond to that?

[148] **Nerys Evans:** The proposed Measure will allow for an increased dialogue between the public and local authorities, which will be beneficial in ensuring that publicly funded bodies are held accountable for their decisions and that they engage with their residents in explaining these decisions. That is why the proposed Measure comes under matter 12.5, which is about increasing or improving the functions of local government. It is to improve transparency and the way authorities engage with their residents.

byddai hefyd, gobeithio, yn creu diddordeb ymysg y cyhoedd ac yn ehangu'r ddadl. Nid oes yn rhaid i bobl wybod yr holl ffeithiau, dim ond cael diddordeb, rhywbeth yr wyf yn sicr sydd gan unrhyw un sy'n cyfrannu at ailgylchu eu gwastraff.

Irene James: Siawns na fyddai'n rhaid iddynt gael rhywfaint o wybodaeth sylfaenol yn ogystal â diddordeb?

Nerys Evans Petai awdurdodau lleol yn cyhoeddi'r wybodaeth hon, byddwn yn dychmygu na fyddent yn gwneud hynny'n oeraidd, ond, yn hytrach, yn esbonio beth sydd ar gael, pam maent yn gwneud yr hyn y maent yn ei wneud ac ati. Mae'n debyg y byddai hynny'n digwydd yn awtomatig. Ni all yr un awdurdod lleol ddelio gyda'i holl ailgylchu o fewn ffin yr awdurdod lleol, Cymru na'r DU. Felly, yr wyf yn dychmygu y byddai'n rhaid dweud hynny wrth y cyhoedd, ac nid dim ond gan yr awdurdod lleol, ond gan y cyfryngau, gwleidyddion ac yn fwy cyffredinol. Mae'n debyg y byddai'r wybodaeth honno'n dod yn naturiol.

Irene James: Wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, dywedodd CLILC am awdurdodau lleol,

rôl gyfyngedig sydd ganddynt yn sicrhau marchnadoedd ar gyfer deunydd ailgylchu—nid ydynt bob amser yn delio gyda'r prosesydd terfynol ac felly efallai mai ychydig iawn o effaith fyddai sylwadau'n ei chael.

Sut yr ydych yn ymateb i hynny?

Nerys Evans: Bydd y Mesur arfaethedig yn gyfle i gael rhagor o ddeialog rhwng y cyhoedd ac awdurdodau lleol, a bydd hynny'n helpu i sicrhau bod cyrff a ariennir gan y pwr cyhoeddus yn cael eu dal yn atebol am eu penderfyniadau a'u bod yn ymgysylltu â'u preswylwyr wrth esbonio'r penderfyniadau hyn. Dyna pam mae'r Mesur arfaethedig yn dod o dan fater 12.5, sy'n ymwneud â chynyddu neu wella swyddogaethau llywodraeth leol. Ei bwrpas yw gwella tryloywder a'r ffordd y mae'r awdurdodau'n ymgysylltu â'u preswylwyr.

10.30 a.m.

[149] The public might also want to make representations on an increase in kerbside recycling, which, of course, is an intention of the Assembly Government, and it would make it easier to track the waste that is shipped outside the EC and European Free Trade Association areas. It would also be in line with the requirements of the revised waste framework directive that requires member states to take measures to promote high-quality recycling and therefore separate collections of waste where appropriate.

[150] In terms of its limited impact, that is democracy. I am sure that we, as residents of local authorities, outside our jobs as Assembly Members, have made representations to those local authorities on numerous issues. It is ultimately up to the local authority how it responds to those representations, but it is our duty as residents in that local authority to have the information available and to make representations to the local authority based on that information.

[151] **Mohammad Asghar:** My question follows on from Irene's question. In evidence to the committee, the waste resource action programme reported that negative media stories about the export of waste overseas caused a drop in the number of committed recyclers. In view of that, is there a danger that the information provided by local authorities could lead to a decrease in recycling rates, which would ultimately lead to an increase in landfill?

[152] **Nerys Evans:** I do not accept that argument. As the Minister stated last week, she wants to see this done, she wants to create a national debate about recycling, and sharing accurate information is one way of doing that. There is no reason to expect that, if properly explained, information about the shipment of waste will discourage recycling. It has not happened in Somerset, for example. I do not accept the argument that the consequence would be an increase in the amount of waste being sent to landfill because that is based on the assumption that

Efallai y bydd y cyhoedd hefyd am wneud sylwadau am wella ailgylchu o ddrws i ddrws, sef un o fwriadau Llywodraeth y Cynulliad wrth gwrs, a byddai'n ei gwneud yn haws olrhain y gwastraff sy'n cael ei gludo y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd ac ardaloedd Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop. Byddai hefyd yn cyd-fynd â gofynion y gyfarwyddeb fframwaith gwastraff ddiwygiedig sy'n mynnu bod aelod-wladwriaethau'n cyflwyno mesurau i hybu gwasanaeth ailgylchu o ansawdd da ac felly casgliadau gwastraff ar wahân lle bo hynny'n briodol.

O ran ei effaith gyfyngedig, democratiaeth yw hynny. Yr wyf yn sicr ein bod ni, fel trigolion awdurdodau lleol, y tu allan i'n swyddi fel Aelodau Cynulliad, wedi rhoi sylwadau i'r awdurdodau lleol ar sawl mater. Yn y pen draw yr awdurdod lleol fydd yn gorfod penderfynu sut i ymateb i'r sylwadau hynny, ond ein dyletswydd ni fel trigolion yn yr awdurdod lleol hwnnw yw meddu ar yr wybodaeth a chyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol ar sail yr wybodaeth honno.

Mohammad Asghar: Mae fy nghwestiwn yn ddilyniant i gwestiwn Irene. Mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, dywedodd rhaglen weithredu'r cynllun gwastraff ac adnoddau fod storïau negyddol yn y cyfryngau am allforio gwastraff dramor wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr ailgylchwyr ymroddedig. O wybod hynny, a oes perygl y gallai'r wybodaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol arwain at ostyngiad yn y cyfraddau ailgylchu, a fyddai yn y pen draw yn arwain at anfon mwy o wastraff i safleoedd tirlenwi?

Nerys Evans: Nid wyf yn derbyn y ddadl honno. Fel y dywedodd y Gweinidog yr wythnos diwethaf, mae am weld hyn yn digwydd, mae am weld dadl genedlaethol am ailgylchu, ac mae rhannu gwybodaeth gywir yn un ffordd o wneud hynny. Nid oes rheswm i ddisgwyl y bydd gwybodaeth am gludo gwastraff, os caiff ei hesbonio'n iawn, yn troi pobl yn erbyn ailgylchu. Nid yw wedi digwydd yng Ngwlad yr Haf, er enghraifft. Nid wyf yn derbyn y ddadl mai'r canlyniad fyddai cynnydd yn y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi oherwydd mae hynny'n

the public will not understand the information presented to it. As I stated to Irene James, when the information is published, the local authorities will have an opportunity to explain their recycling policies, why they export a certain amount, why they do things in certain ways or why they are not kerbside recycling. They will have an opportunity to share the information and as the Minister responsible for recycling in Wales has said, she supports it in principle. She wants to encourage a national debate about it and, therefore, I think that it can only be a good thing that we have the information on what is happening at the moment. That information needs to be passed on to the people of Wales so that we can have an informed debate about it.

[153] **Mohammad Asghar:** We know that the WLGA is always hard-line and does not like change to happen quickly. Concerns have been raised in evidence that, as a result of the proposed Measure, local authorities will be pressurised into using local facilities that may be more expensive and less sustainable than exporting waste for recovery. Would you like to comment on that?

[154] **Nerys Evans:** Again, going back to the Somerset Waste Partnership, that currently requires contractors to provide the information on recycle. It has told me that it does not believe that that has had an impact on the number of contractors submitting tenders or on the costs noted in those submissions. Going back to the Assembly Government's Enviro report, that includes some evidence from private companies that they already collect some of the information on the final destination of waste so that they can ensure traceability. We know that some local authorities in England now publish that information on their websites anyway and if some local authorities are doing it, I think that it is the fear of the unknown that is the biggest concern of the local authorities that are objecting to the proposed Measure.

[155] **Irene James:** In giving evidence to this committee and the Finance Committee, you have suggested that when the public has

seiliedig ar y dybiaeth na fydd y cyhoedd yn deall yr wybodaeth y bydd yn ei chael. Fel y dywedais wrth Irene James, pan gaiff yr wybodaeth ei chyhoeddi, caiff awdurdodau lleol y cyfle i esbonio'u polisiau ailgylchu, pam maent yn allforio rhywfaint, pam maent yn gwneud rhai pethau mewn ffyrdd penodol neu pam nad ydynt yn ailgylchu o ddrws i ddrws. Cânt gyfle i rannu'r wybodaeth ac fel y dywedodd y Gweinidog sy'n gyfrifol am ailgylchu yng Nghymru, mae'n ei gefnogi mewn egwyddor. Mae'n awyddus i gael dadl genedlaethol am hyn ac felly, credaf mai dim ond daioni a ddaw o gael yr wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae angen trosglwyddo'r wybodaeth honno i bobl Cymru er mwyn inni gael trafodaeth wybodus amdano.

Mohammad Asghar: Gwyddom fod GLILC bob amser yn ddiwyro ac nid ydynt yn hoffi gweld newid yn digwydd yn gyflym. Mynegwyd pryderon mewn tystiolaeth y bydd awdurdodau lleol, oherwydd y Mesur arfaethedig, yn cael eu rhoi o dan bwysau i ddefnyddio cyfleusterau lleol a fydd yn ddrutach ac yn llai cynaliadwy o bosibl nag allforio gwastraff ar gyfer ei adfer. A hoffech chi roi sylwadau ar hynny?

Nerys Evans: Eto, af yn ôl at Bartneriaeth Gwastraff Gwlad yr Haf, lle mae'n rhaid i gontractwyr ddarparu'r wybodaeth am y deunydd ailgylchu ar hyn o bryd. Mae wedi dweud wrthyf nad yw'n credu bod hynny wedi cael effaith ar nifer y contractwyr sy'n cyflwyno tendrau nac ar y costau a nodir yn y ceisiadau hynny. Gan fynd yn ôl at adroddiad Enviro Llywodraeth y Cynulliad, sy'n cynnwys rhywfaint o dystiolaeth gan gwmnïau preifat eu bod eisoes yn casglu rhywfaint o'r wybodaeth am gyrchan terfynol y gwastraff er mwyn iddynt allu sicrhau y gellir ei olrhain. Gwyddom fod rhai awdurdodau lleol yn Lloegr yn awr yn cyhoeddi'r wybodaeth honno ar eu gwefannau beth bynnag ac os yw rhai awdurdodau lleol yn gwneud hynny, credaf mai pryder mwyaf yr awdurdodau lleol sy'n gwrthwynebu'r Mesur arfaethedig yw ofni rhywbeth sy'n ddiethr.

Irene James: Wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor hwn ac i'r Pwyllgor Cyllid, yr ydych wedi awgrymu bod cyfraddau

more information about recycling, participation rates increase. While it may be generally accepted that providing information on how to recycle may have a positive effect, it does not necessarily follow that information on waste exported for recovery would do the same. What evidence do you have that information on the shipment of waste for recovery outside the EU and the EFTA will have a positive effect on recycling rates?

[156] **Nerys Evans:** I come back to the point that the Minister made last week about creating an informed debate nationally. The Environment Agency said in response to the consultation that,

[157] 'Providing the means for more information to be collected and shared with the general public may encourage the population to accept recycling facilities within their neighbourhoods which would be a positive outcome.'

[158] We know from Somerset that participation rates have not decreased. I gave evidence in the first legislative committee meeting about a local authority in London that saw the recycling rates shoot up when it shared more information with the public. I do not therefore think that we should be afraid of telling the public what is happening to our waste. As the Government's policy is rolled out to increase the percentage of waste that is recycled, more people will be aware of it, and it will be a part of our daily lives, if it is not already. People will be interested in it, and they will be active participants in the recycling process, and it therefore follows that, in time, they will want more information. This proposed Measure would ask local authorities to provide that information now to ensure that people feel more engaged in the process, because it is possible that people sort their recycling and put it out for collection and think that that is it. I am sure that, as we consider the environmental issues facing us, more people will want to engage in this process, and this is certainly one way of doing that, to ensure that the information is available. We are not asking for information that does not exist. We are asking authorities to take reasonable steps

cyfranogi'n cynyddu pan fydd gan y cyhoedd fwy o wybodaeth am ailgylchu. Er derbynir yn gyffredinol y gall darparu gwybodaeth am sut i ailgylchu gael effaith gadarnhaol, nid yw hynny, o anghenraid, yn golygu y byddai cael gwybodaeth am wastraff a allforir i'w adfer yn cael yr un effaith. Pa dystiolaeth sydd gennych y bydd yr wybodaeth am gludo gwastraff i'w adfer y tu allan i'r UE ac ardal masnach rydd Ewrop yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau ailgylchu?

Nerys Evans: Dof yn ôl at y pwynt a wnaeth y Gweinidog yr wythnos diwethaf am greu dadl wybodus yn genedlaethol. Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd,

Gall darparu'r modd ar gyfer casglu a rhannu mwy o wybodaeth gyda'r cyhoedd annog y boblogaeth i dderbyn cyfleusterau ailgylchu yn eu hardaloedd a fyddai'n ganlyniad cadarnhaol.

Gwyddom o dystiolaeth Gwlad yr Haf nad yw'r cyfraddau cyfranogi wedi lleihau. Rhoddais dystiolaeth yng nghyfarfod y pwyllgor deddfwriaethol cyntaf am awdurdod lleol yn Llundain lle gwelwyd y cyfraddau ailgylchu'n codi'n gyflym pan rannodd fwy o wybodaeth gyda'r cyhoedd. Felly, ni chredaf y dylem fod ag ofn dweud wrth y cyhoedd beth sy'n digwydd i'n gwastraff. Wrth i bolisi'r Llywodraeth gael ei roi ar waith fesul cam i gynyddu canran y gwastraff a ailgylchir, bydd mwy o bobl yn dod i wybod amdano, a bydd yn rhan o'n bywydau beunyddiol, os nad ydyw'n barod. Bydd gan bobl ddiddordeb a byddant yn gyfranogwyr brwd yn y broses ailgylchu. Felly, mae'n dilyn y byddwn, mewn amser, eisiau mwy o wybodaeth. Byddai'r Mesur arfaethedig hwn yn gofyn i awdurdodau lleol ddarparu'r wybodaeth honno yn awr i sicrhau bod pobl yn teimlo bod ganddynt fwy o ran yn y broses, oherwydd, mae'n bosibl bod pobl yn didoli'u deunydd ailgylchu a'i roi allan i'w gasglu a meddwl mai dyna'i diwedd hi. Wrth inni ystyried y problemau amgylcheddol sy'n ein hwynebu, yr wyf yn sicr y bydd mwy o bobl eisiau bod yn rhan o'r broses hon, ac yn sicr bydd hyn yn un ffordd o wneud hynny, sicrhau bod yr wybodaeth ar gael. Nid ydym

and give estimates, if that is easier for them. So, we are not trying to place a heavy burden on them; we are just asking that, where the information exists, they make it publicly available. The benefits far outweigh any negative comments that you might have heard in this committee.

[159] **Rosemary Butler:** We did touch on this matter earlier on, but I just want to raise it again. Concern has been raised in evidence that private waste companies may be reluctant to enter into contracts with local authorities in Wales if, as a condition of contract, they are expected to provide the information necessary to meet the requirements of the proposed Measure. I probably know what your answer will be, but I will ask anyway. How do you respond to this? [*Laughter.*]

[160] **Nerys Evans:** Well, some are already doing it voluntarily, and they do not see the cost as burdensome. They can see the advantages of what they are doing. As I mentioned to Oscar, on the tendering issue, Somerset Waste Partnership requires this information to be passed down, and it does not see this step as affecting its tendering process in terms of the number of bids for tender and the cost of the tender in relation to complying with the requirement to provide information. The information is available. If your company exports waste, you have to fill in an annex 7 form, and all we ask is that that information is passed, in the same format if possible, to local authorities or through the middleman to local authorities, for the local authorities to make it publicly available. The cost would therefore be minimal.

[161] **Rosemary Butler:** We have asked all the prepared questions, but I have an additional one to ask. The duty in section 55A(1) applies to waste collection authorities or to waste disposal authorities in Wales. Can you explain why 'or' is used as opposed to 'and'? It would seem to suggest that the duty would not apply to them both at the same time within any one given local authority area. Can you confirm whether this was the

yn gofyn am wybodaeth nad yw'n bodoli. Yr ydym yn gofyn i awdurdodau gymryd camau rhesymol a rhoi amcanestyniadau, os yw hynny'n haws iddynt. Felly, nid ydym yn ceisio rhoi baich trwm ar eu hysgwyddau; yn hytrach, yn gofyn iddynt, os yw'r wybodaeth yn bodoli, ei rhoi i'r cyhoedd. Mae'r manteision yn llawer mwy nag unrhyw sylwadau negyddol y byddwch o bosibl wedi'u clywed yn y pwyllgor hwn.

Rosemary Butler: Yr ydym wedi crybwyll y mater hwn yn gynharach, ond hoffwn ei godi eto. Mae pryder wedi'i leisio mewn tystiolaeth y gallai cwmnïau gwastraff preifat fod yn anfodlon llofnodi contractau gydag awdurdodau lleol yng Nghymru os bydd disgwyl iddynt ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol i fodloni gofynion y Mesur arfaethedig fel un o amodau'r contract. Yr wyf yn gwybod, mae'n debyg, beth fydd eich ateb, ond yr wyf am ofyn beth bynnag. Sut yr ydych yn ymateb i hyn? [*Chwerthin.*]

Nerys Evans: Wel, mae rhai'n gwneud hyn yn wirfoddol eisoes, ac nid ydynt yn teimlo bod y gost yn feichus. Gallant weld manteision yr hyn y maent yn ei wneud. Fel y dywedais wrth Oscar, ar y mater tendro, mae Partneriaeth Gwastraff Gwlad yr Haf yn mynnu bod yr wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo ac nid yw'n gweld bod y cam hwn yn effeithio ar y broses dendro o ran nifer y ceisiadau tendro a chost y tendr o ran cydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth. Mae'r wybodaeth ar gael. Os yw'ch cwmni'n allforio gwastraff, mae'n rhaid ichi lenwi ffurflen atodiad 7, a'r cyfan a ofynnwn yw i'r wybodaeth honno gael ei throsglwyddo, yn yr un fformat os oes modd, i awdurdodau lleol, neu drwy'r dyn canol i awdurdodau lleol, er mwyn i'r awdurdodau lleol ei rhoi i'r cyhoedd. Isel iawn fyddai'r gost felly.

Rosemary Butler: Yr ydym wedi gofyn yr holl gwestiynau a baratowyd, ond mae gennyf un ychwanegol i'w ofyn. Mae'r ddyletswydd yn adran 55A(1) yn berthnasol i awdurdodau casglu gwastraff neu awdurdodau gwaredu gwastraff yng Nghymru. A allwch chi esbonio pam y defnyddir y gair 'or' yn hytrach na'r gair 'and'? Mae'n awgrymu, i bob golwg, na fyddai'r ddyletswydd yn berthnasol i'r ddau

intention behind the drafting of the duty?

ar yr un pryd mewn unrhyw un ardal awdurdod lleol benodol. A allwch chi gadarnhau ai hyn oedd y bwriad y tu ôl i ddrafftio'r ddyletswydd?

[162] **Nerys Evans:** No, I am not too sure—

Nerys Evans: Na, nid wyf yn rhy siŵr—

[163] **Rosemary Butler:** It is on the front, with sections 55B and 55C. It says that it applies to waste collection authorities 'or' to waste disposal authorities. It is an either/or, but should it not be both?

Rosemary Butler: Mae ar y tu blaen, gydag adrannau 55B a 55C. Mae'n dweud ei fod yn berthnasol i awdurdodau casglu gwastraff 'neu' i awdurdodau gwaredu gwastraff. Mae'n naill ai/neu, ond oni ddylai fod y ddau?

[164] **Ms Jackson:** It probably stems from how the Environment Protection Act 1990 deals with waste collection authorities and waste disposal authorities. In some parts of the UK, the authorities that deal with collection are separate to those that deal with disposal. In most cases in Wales, they would be one and the same, but they may not be.

Ms Jackson: Mae'n deillio, mae'n debyg, o sut y mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn delio gydag awdurdodau casglu gwastraff ac awdurdodau gwaredu gwastraff. Mewn rhai rhannau o'r DU, mae'r awdurdodau sy'n delio gyda chasglu gwastraff yn wahanol i'r rhai sy'n gwaredu'r gwastraff. Yn y rhan fwyaf o achosion yng Nghymru, yr un cwmni fyddai'n gwneud y ddau beth, ond efallai ddim.

[165] Collection authorities do not always pass on all their recyclate to the disposal authority, which may then send it for recovery. In some instances, collection authorities will retain recyclate material and deal with the recovery themselves. So, the intention is to ensure that both types of authority are considered. However, if the committee is concerned, we will look at this further and let you have a written note before you finalise your report on the matter.

Nid yw awdurdodau casglu bob amser yn trosglwyddo'u holl ddeunydd ailgylchu i'r awdurdod gwaredu, a fydd efallai yn ei yrru wedyn i'w adfer. Mewn rhai achosion, bydd yr awdurdodau casglu'n cadw deunydd ailgylchu a delio gyda'r gwaith o'i adfer eu hunain. Felly, y bwriad yw sicrhau bod y ddau fath o awdurdod yn cael eu hystyried. Ond, os yw'r pwyllgor yn bryderus, gallwn edrych ar hyn eto ac anfon nodyn ysgrifenedig atoch cyn ichi baratoi eich adroddiad terfynol ar y mater.

[166] **Rosemary Butler:** It would be helpful, because, as I read it, it is either/or, and not both of them. It would be helpful if we could have that in writing. Are there any other questions from Members? I see that there are not. We have asked you a lot of questions, Nerys, but is there anything that you want to ask us? As long as it is not too difficult, we might respond.

Rosemary Butler: Byddai'n ddefnyddiol, oherwydd, wrth i mi ei ddarllen, mae'n naill ai/neu ac nid y ddau ohonynt. Byddai'n ddefnyddiol ei gael ar ffurf ysgrifenedig. A oes gan yr Aelodau gwestiynau eraill? Gwelaf nad oes. Yr ydym wedi gofyn llawer o gwestiynau ichi, Nerys, ond a oes gennych chi rywbeth i'w ofyn i ni? Efallai yr atebwn os na fydd yn rhy anodd.

[167] **Nerys Evans:** No, I just want to thank you for the opportunity to come back to give evidence.

Nerys Evans: Na dim ond diolch ichi am y cyfle i ddychwelyd i roi tystiolaeth.

[168] **Rosemary Butler:** You will have a copy of the draft transcript, so if you have

Rosemary Butler: Cewch gopi o'r trawsgrifiad drafft. Felly, os bydd gennych

any comments on that you should let the clerks know. If there are any other points that you wish to raise, please send them to us in writing. Thank you for coming this morning.

unrhyw sylwadau ar hwnnw dylech roi gwybod i'r clercod. Os oes gennych bwyntiau eraill i'w codi, a fyddech gystal â'u hanfon atom ar ffurf ysgrifenedig. Diolch ichi am ddod y bore yma.

10.40 a.m.

Cynnig Trefniadol Procedural Motion

[169] **Rosemary Butler:** We usually go into private session to do this, but rather than wait until the beginning of the next meeting to move the motion, I am asking the committee to agree to that now. I move that

in accordance with Standing Order No. 10.37, the committee agrees to exclude the public from all future meetings at which it will be deliberating on the content, conclusions or recommendations of its report on the proposed shipment of waste recovery Measure.

[170] I see that the committee is content. Thank you.

[171] Just to remind you, the next meeting will be on Thursday, 5 November, when we will consider the key issues arising from the evidence taken so far. That brings business to a close.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Rosemary Butler: Fel arfer, byddwn yn mynd i sesiwn breifat i wneud hyn ond, yn hytrach nag aros tan ddechrau'r cyfarfod nesaf i gynnig y cynnig, yr wyf yn gofyn i'r pwyllgor gytuno i hynny yn awr. Cynigiau

yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.37, fod y pwyllgor yn cytuno i eithrio'r cyhoedd o'r holl gyfarfodydd yn y dyfodol lle bydd yn trafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion ei adroddiad ar y Mesur arfaethedig Cludo gwastraff i'w adfer.

Gwelaf fod y pwyllgor yn gytûn. Diolch yn fawr.

Dim ond i'ch atgoffa, cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 5 Tachwedd, pan fyddwn yn ystyried y prif faterion sy'n codi o'r dystiolaeth a gafwyd hyd yma. Daw hynny â'r busnes i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 10.41 p.m.
The meeting ended at 10.41 p.m.*